# tafod elái

GORFFENNAF 2024

Rhif 389

Pris £1


## Eisteddfod Genedlaethol 2024

£225,00 oedd cyfanswm y gronfa leol adeg yr aeth Tafod Elái i'r wasg ddiwethaf, ond pan fydd Rhaglen y Dydd yn cael ei chyhoeddi, £275,000 fydd y cyfanswm a nodir. Mae'r swm yma'n cynrychioli ymdrech aruthrol yma yn Rhondda Cynon Taf ac mewn ardaloedd cyfagos. Diolch yn fawr iawn, iawn, iawn i bawb. Mae wedi bod yn waith caled ond 'dyn ni wedi cael amser da'n cymdeithasu. Mor braf yw clywed ym mhob ardal bydd y gweithgareddau'n parhau, ond efallai ddim ar yr un raddfa! Mae nifer o weithgareddau ar y gweill rhwng nawr a'r Eisteddfod er mwyn codi rhagor o arian a cheir arwerthiant ar-lein trwy gydol mis Gorffennaf. Dyma'r ddolen: [Arwerthiant Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf | GalaBid]. Dw i'n gallu ychwanegu eitemau trwy gydol y mis, felly os oes rhywbeth y gellwch ei gyfrannu.

Mae'r gwaith o baratoi'r Parc wedi cychwyn a'r gwaith mawr nesaf i ni yw harddu'r ardal. Cofiwch alw heibio Llyfrgell Pontypridd i weld y Goron a'r Gadair yn cael eu harddangos. Maen nhw'n werth eu gweld. Byddwn ni'n dadorchuddio Tlysau'r Dysgwr yn y Guild Hall yn Llantrisant nos Iau, 24 Gorffennaf am 6pm yng nghwmni'r Archdderwydd a'r crefftwyr, gydag adloniant gan Gwenan Gibbard. Croeso i bawb!

Bydd stondin gyda ni yn Tafwyl (13 + 14 Gorffennaf). Cofiwch alw heibio am sgwrs.

Mae wedi bod yn hyfryd ymweld ag ysgolion a grwpiau lleol dros yr wythnosau diwethaf – yn annog pawb i ddod i'r Eisteddfod. Does dim llawer o amser i fynd ond rhowch wybod os gallaf helpu mewn unrhyw ffordd.

Helen Prosser
(Cadeirydd Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf)

## Gwledd yn yr Eisteddfod

Mae rhaglen yr Eisteddfod eleni'n cynnwys llu o ddigwyddiadau a gweithgareddau gyda'r nos, gyda rhywbeth i blesio pawb. Meddai Betsan Moses, Prif Weithredwr yr Eisteddfod, "Rydyn ni'n ymwybodol iawn o'r angen i gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau ar hyd a lled y Maes gyda'r nos, a gallaf eich sicrhau bod rhywbeth i bawb yn ein rhaglen eleni.

"Bydd Côr yr Eisteddfod yn perfformio fersiwn newydd sbon o hen glasur, Nia Ben Aur yn y Pafiliwn nos Sadwrn a nos Lun. Rydyn ni hefyd wedi codi statws y nosweithiau o gystadlu ymhellach eleni, yn dilyn arbrawf hynod lwyddiannus y llynedd gyda'r Noson Ddawns.

"Gobeithio y bydd pawb yn cael blas o'r arlwy – ac mae popeth ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan ni erbyn hyn, a'r rhaglen swyddogol gyda llond lle o erthyglau nodwedd difyr, yn cael ei gyhoeddi ac ar gael yn y siopau ac ar-lein."

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf o 3-10 Awst. Mae'r mwyafrif o weithgareddau ar Barc Ynysangharad gyda rhagbrofion a rhai performiadau nos yng Nghanolfan y Muni, a pherfformiadau theatrig yng Nghanolfan YMA. Am ragor o wybodaeth ewch ar-lein, www.eisteddfod.cymru.

## Elw Her Tri Chopa




Er mwyn codi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2024 yn RhCT derbyniodd criw o'r ardal yr her o gwblhau tri chopa Cymru mewn un diwrnod - Yr Wyddfa, Cadair Idris a Phen-y-Fan. Roedd y tywydd yn echrydus dydd Sadwrn 29 Mehefin wrth i'r criw ddringo'r Wyddfa am 4 y bore a'r cymylau yn isel iawn dros Pen-y-fan wrth iddynt gwblhau'r daith am 8 yr hwyr. Erbyn diwedd y daith roedd dros £8500 wedi ei gyfrannu i'r gronfa - https://www.gofundme.com/f/tri-chopa-cymru-rct-2024 .



tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Medi
i gyrraedd erbyn
31 Gorffennaf 2024

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol
ar gyfer eich cartref
neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

# Clwb Rygbi Pentyrch yn Dathlu

Ar ddechre'r tymor , go brin y bydde braidd neb wedi clywed hyd yn oed am fewnwr o'r enw Ellis Bevan oedd ar lyfre Rhanbarth Rygbi Caerdydd. Crwt o Solihull yn Lloegr, ond ei dad o Abertawe, ac Ellis wedi dod i Gaerdydd yn fyfyriwr yng Ngholeg y Met.

Ond yn gynharach yn y tymor ymunodd â'n tîm hyfforddi ni yng Nghlwb Rygbi Pentyrch, ac ar ôl hynny, mae ei yrfa ar y cae wedi blodeuo!! Dechre chware'n gyson dros Gaerdydd, ac yna'n annisgwyl falle, ei gynnwys yng ngharfan Cymru ar gyfer ymgyrch yr haf. Ac yn goron ar y cwbwl ei ddewis i ddechre yn y crys rhif 9 i Gymru yn erbyn De Affrica yn Nhwickenham ryw bythefnos yn ôl, a chreu argraff ffafriol iawn wrth ennill ei gap cyntaf dros Wlad ei Dad, a hynny yn erbyn Pencampwyr y Byd. Llongyfarchiade mawr iddo ar ei lwyddiant, a phob hwyl i Ellis ar y daith gyda Chymru i Awstralia dros y mis nesa.






**Noson Wobrwyo**
Bu criw o'r chwaraewyr hefyd yn dathlu yn ddiweddar pan gynhaliwyd Noson Wobrwyo lwyddiannus iawn yn y clwb. Dyma'r bechgyn enillodd brif wobrau'r tîm cyntaf am y tymor - yn amlwg wrth eu bodd gyda'u llwyddiant



O'r chwith i'r dde Gwilym Rees - Chwaraewr y Tymor; Lloyd John - Y Mwyaf Addawol; Ethan Williams - Dewis y Cefnogwyr; a Mikey Owen - Dewis ei Gyd Chwaraewyr.

Enillwyr Tlysau'r ail dîm oedd Jake Lambert Jones a Toby Sawyer-Newman; a gyda'r Ieuenctid Osian Morgan-Davies, Jake Gardner, Lewis Jones, Frazer Laskey a Will Jones.

Llongyfarchiade mawr iddyn nhw i gyd.

H.LL.D.

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Menyw Lolipop**
Llongyfarchiadau i Hazel Davies, cymdoges i Joy ac Eifion Glyn ym Mhenywaun, ar gyrraedd carreg filltir go arbennig. Mae wedi bod yn "fenyw lolipop" yn hebrwng plant ar draws y ffordd i gyrraedd yr ysgol yn ddiogel ers hanner can mlynedd a 27 o'r rheini yn Ysgol Gynradd Pentyrch. Mae ei gŵr John, ar ôl ymddeol yn gwneud gwaith tebyg yn Ysgol Creigiau. Cynhaliwyd dathliad arbennig yn Ysgol Pentyrch i nodi'r achlysur – balwns y tu allan i'r ysgol a rhieni a disgyblion yn cwrdd yn yr ysgol i'w hanrhegu a rhannu cacen. Roedd camerau teledu yno i gofnodi'r digwyddiad a Hazel yn cyhoeddi nad yw'n fwriad ganddi i ymddeol eto er ei bod yn 83 mlwydd oed.

**Priodas Dda**
Llongyfarchiadau mawr i Cerian ac Andy ar ddathliad eu priodas yn heulwen Sorrento yn yr Eidal. Cafodd y teulu a'u ffrindiau amser wrth eu boddau yn mwynhau'r achlysur yn y Circolo dei Forestieri (Clwb Estroniaid.) Mae Mr a Mrs Henderson Hughes wedi ymgartrefu yn Nyfnant ger Abertawe gyda'i mab bach Iestyn a dymunwn bob hapusrwydd iddynt.



# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN



**Gohebydd y Mis: Margaret White**

**Merched y Wawr Tonysguboriau**



Cafwyd noson ddiddorol dros ben yn ein cyfarfod diwethaf lle daeth Hannah Holton i siarad gyda ni. Wel sôn am yrfa! Ar ôl graddio bu hi am flynyddoedd yn gweithio i'r cyfryngau ar wahanol raglenni a phrosiectau. Daeth Hannah â bag gyda hi oedd yn llawn trugareddau, yn llawn 'props' sy'n ei hatgoffa hi o wahanol gyfnodau a phethau yn ei gyrfa – mae casgliad o 'lanyards' ganddi a hyd yn oed tywel o'r cyfnod pan oedd rhaglen Hywel Gwynfryn yn eu rhoi fel gwobrau.

Ar ôl cyfnod yn sefydlu busnes bach ei hun yn ymwneud â chynllunio a gwneud 'cymeriadau' o begiau doli mae Hannah bellach yn gweithio yn llawrydd. Hi oedd un o'r bobl oedd yn gweithio 'tu ôl i'r llen' ar gyfres Sain Ffagan S4C. Cawsom gwpwl o straeon difyr iawn ganddi am y gwaith yma.

Diolch Hannah am roi cip i ni ar yrfa lwyddiannus a difyr dros ben. Roedden ni gyd yn falch fod mam, sef Betsan Evans, wedi cael y cyfle i ofyn cwestiwn i'w merch ar y diwedd.

Mawr yw ein diolch hefyd am y rhodd o bortread pegiau doli 'A oes heddwch' a fydd yn cael ei roi fel un o wobrau raffl ar gyfer codi arian i'r Eisteddfod.

**Anrhydeddu**

Llongyfarchiadau mawr iawn i Wayne Griffiths sydd wedi cael ei anrhydeddu yn ddiweddar. Mae'r teulu, - Wayne, Jayne, Rhys, Jen, Hari a Mili bron â llwyddo i godi miliwn o bunnau i Gronfa Blodyn Côf Rhian Griffiths yn Felindre. Collwyd Rhian yn drist iawn yn 2012 ac mae'r teulu wedi gweithio'n ddiflino ers hynny yn codi arian. Gwych Wayne.

**Anrhydeddu Llinos Swain**

Llongyfarchiadau mawr i Llinos Swain ar dderbyn y Wisg Werdd yn yr Eisteddfod ym Mhontypridd eleni. Cyfrannodd yn helaeth a di-flino at fywyd Cymraeg a cherddorol yr ardal am flynyddoedd. Hi fu'n gyfrifol am Adran yr Urdd yn yr Ysgol Gynradd ac aeth ymlaen wedyn i sefydlu adran ym Morthcawl lle'r oedd rhai o'u hwyrion yn byw. Bu'n hyfforddi plant i gystadlu a chreu nifer helaeth o osodiadau cerdd dant dros y blynyddoedd. Bu hefyd yn asgwrn cefn i Gôr Merched y Garth ar hyd eu bodolaeth o'r 70au, bob amser yn barod i helpu fel arweinydd neu gyfeilydd pan fo'r angen. Er nad ydy Llinos yn byw yn Llantrisant bellach, mae pobol ifanc ac oedolion yr ardal wedi elwa o'i doniau ac yn ymfalchio ei bod yn derbyn yr anrhydedd teilwng yma.

**Hen Draddodiad**

Mae Curo'r Ffiniau yn un o hen draddodiadau Llantrisant ac mae'n digwydd pob saith mlynedd. Daw miloedd o bobl i ymweld â'r hen dref i fwynhau'r awyrgylch a'r traddodiad ei hun.

Mae'r daith tua saith milltir o hyd ac yn dilyn ffiniau bwrdeistref hynafol Llantrisant ac mae hyn wedi bod yn digwydd ers cannoedd o flynyddoedd.
Mae plant ifanc yn cael eu 'bympio' ar garreg sy'n nodi'r ffiniau yma ac acw ar hyd y daith. Pwrpas hyn oedd i wneud yn siwr y byddai'r plentyn yna yn cofio ac yn ymwybodol o'r ffiniau drwy gydol ei fywyd.

Roedd hyn wrth gwrs yn effeithiol iawn cyn dyddiau mapiau fel bod gwybodaeth am y ffiniau yn cael ei drosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall.

Wrth i amser fynd heibio mae mannau ar y daith wedi newid llawer gyda stadau o dai newydd ac ati wedi eu hadeiladu. Erbyn Heddiw, yn wir, mae'r daith yn mynd drwy safle Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Clwb Golff Llantrisant a hyd yn oed y Bathdy Brenhinol.

Mae Curo'r Ffiniau yn ffordd wych o ddathlu hen draddodiadau Llantrisant. Cychwynnir gyda gwasanaeth yn Eglwys y Plwyf cyn i Ymddiriedolaeth Tref


**acapela**

**acapela Pentyrch**

**Nos Sadwrn 3 Awst 2024**
**Mei Gwynedd**




**Nos Sul 4 Awst 2024**
**Mared**



**acapela.co.uk**





Llantrisant arwain gorymdaith ynghyd â band ar hyd Stryd Swan ac ymlaen i Cross Inn. Dyma ydy cychwyn y daith hanesyddol yma.



# Ar drywydd llên yn Rhondda Cynon Taf - 8

Anodd credu ein bod wedi cyrraedd rhifyn olaf y gyfres a bod Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf ar ein gwarthaf. Y tro hwn, byddwn yn trafod cynnyrch ein hysgolion uwchradd Cymraeg, sydd â hanes anrhydeddus o ran llenyddiaeth a llenorion.

Yn 1962 agorodd **Ysgol Gyfun Rhydfelen**, a newidiodd ei henw wrth newid lleoliad i Bentre'r Eglwys yn 2006 a dod erbyn hyn yn **Ysgol Gartholwg**. Am rai blynyddoedd, Rhydfelen oedd yr unig ysgol gyfun Gymraeg yn ne Cymru. Ymhlith y llenorion amlwg a gafodd eu haddysg uwchradd yno y mae **Gwyneth Lewis**, bardd cenedlaethol cyntaf Cymru (2005-6), y mae ei geiriau'n ein hysbrydoli bob tro yr awn i gynhyrchiad yng Nghanolfan Mileniwm Cymru – 'CREU GWIR FEL GWYDR O FFWRNAIS AWEN – IN THESE STONES HORIZONS SING'. Fel finnau, byddwch yn aml wedi ystyried ystyr y 'gwir fel gwydr', ac arwyddocâd y 'ffwrnais'. Dawn brin sy'n gallu defnyddio cyn lleied o eiriau i ysgogi cymaint o feddwl.



Cafodd Gwyneth yrfa academaidd ddisglair a chyhoeddodd ryddiaith, barddoniaeth, dramâu a *libretti* yn Gymraeg a Saesneg. Yn 2006 bu'n Awdur Preswyl yn Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth Prifysgol Caerdydd ac fe'i comisiynwyd gan CERN yn 2013 i ysgrifennu cerddi. Enillodd Goron yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Morgannwg yn 2012 am ei cherdd 'Ynys'. Llyfr a fwynheais yn fawr rai blynyddoedd yn ôl oedd *Two in a Boat – A Marital Rite of Passage* – sy'n cofnodi ei mordaith gyda'i gŵr, o Gymru i ogledd Affrica. Os oes gennych ŵr sy'n mwynhau hwylio, byddwch yn cydymdeimlo â'r mêt ac yn gwerthfawrogi'r hiwmor!

Go brin bod llawer o ysgolion uwchradd sydd â chynifer o lenorion ymysg eu cyn-ddisgyblion. Yn ogystal â Gwyneth Lewis, gall Rhydfelen/ Gartholwg ymffrostio yn Aneirin Karadog, Catrin Dafydd, Gwyn Morgan heb sôn am nifer o sgriptwyr teledu a dramodwyr. Bu 2018 yn flwyddyn dda i **Catrin Dafydd**, a enillodd Goron yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd am ei cherddi 'Olion' am y profiad o fod yn Gymraes Gymraeg-ei-hiaith yn Grangetown, ac a enillodd ddosbarth ffuglen Gymraeg Llyfr y



Flwyddyn am ei nofel *Gwales*. Yn yr un cyfnod â Catrin bu **Aneirin Karadog** hefyd yn ddisgybl yn Rhydfelen. Yn 2012 enillodd ei gyfrol *O Annwn i Geltia* gategori barddoniaeth Llyfr y Flwyddyn. Bu'n Fardd Plant Cymru o 2013-15 ac yn 2016 yn y Fenni, enillodd Gadair Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau gyda'i gerdd 'Ffiniau' sy'n archwilio rhyfel a heddwch. Ac eleni, i groesawu Cymru a'r Byd i'n Heisteddfod ni ym Mhontypridd, Aneirin oedd yn gyfrifol am y cywydd croeso. Mae afonydd yr ardal, a'r traddodiad cerddorol, yn cael ei sylw:

Cantorion yw'n hafonydd,
synau'r dŵr yn seinio'r dydd.
Nawr Taf sy'n denor y tŷ,
afon Cynon sy'n canu.
Rhondda Fach a Rhondda Fawr
ac Elái'n gôr goleuwawr
o lachar, yn glochdar glân;
yn Rhigos o ddarogan.

Darogan y mae Eisteddfod fendigedig!

Mae'n fy nharo bod barddoniaeth gyfoes yn fwy o ran o'n byw bob dydd nag y bu yn y gorffennol. Dyna eiriau Gwyneth Lewis mor weladwy ar Ganolfan y Mileniwm, cywydd croeso yn llawn o ymadroddion iaith bob dydd – 'Iawn byt? A wyt obeutu?' A beth yw geiriau cystadleuaeth y Corau Cerdd Dant eleni? Wel cerdd gan **Mererid Hopwood**, un a dderbyniodd ei haddysg uwchradd yn **Ysgol Gyfun Llanhari**. Mererid, wrth gwrs, fydd yr Archdderwydd yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf, a bu dewis y Pwyllgor Cerdd Dant yn Eisteddfod hen gymoedd y glo yn un priodol iawn – 'Hwn yw fy mrawd', cerdd am Paul Robeson a oedd yn rhan o'r sioe a lwyfannwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn y Bae yn 2018. Paul Robeson a glywodd ganu'r glowyr a oedd wedi gorymdeithio o dde Cymru yn 1929 o'i ystafell mewn gwesty yn Llundain tra'r oedd yno yn perfformio *Show Boat*; Paul Robeson a ddeallodd mai'r un oedd brwydr y glowyr â'i frwydr yntau a'i frodyr a'i chwiorydd croenddu yn UDA, ac a ymunodd â'u gorymdaith a thalu am eu tocynnau trên adref; Paul Robeson a fu'n gyfaill triw i'r glowyr a'u teuluoedd weddill ei oes:

Hwn welodd yn ein llygaid ni ei dad a'i fam,
Hwn gerddodd dros ein hachos ni, bob cam,
Hwn glywodd yn ein lleisiau ni ei frawd a'i chwaer,
Hwn ganodd dros ein hachos ni mor daer.

Bu Llanhari hefyd yn gynhyrchiol ei llenorion. Enillodd **Mari George** Fedal Lenyddiaeth a Chadair Eisteddfod yr Urdd. Mae hi'n llais ac wyneb cyfarwydd yn rowndiau Talwrn y Beirdd ar Radio Cymru ac Ymryson y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Sawl gwaith y cafodd ddeg marc am ei thelyneg gan Gerallt neu Ceri Wyn? Cyhoeddodd gyfrolau o'i barddoniaeth gan gynnwys *Y Nos yn dal yn fy Ngwallt* a *Siarad Siafins* yn ogystal â nifer o lyfrau rhyddiaith. Yn gynharach eleni cyhoeddwyd *Sut i Ddofi Corryn*, nofel am Muriel a'i thaith arwrol i geisio gwellhad i'w gŵr, Ken.




Bardd ifanc cyffrous a fu hefyd yn ddisgybl yn Llanhari yw **Gwynfor Dafydd**, a enillodd Gadair Eisteddfod



yr Urdd ddwy flynedd yn olynol, gan gynnwys yn Eisteddfod Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái. Roedd y gerdd a enillodd y flwyddyn flaenorol yn y Fflint, ac yntau'n dal yn ddisgybl yn Llanhari, yn trafod anghyfiawnder cymdeithasol ac yn seiliedig ar ei brofiadau yn ystod ei fagwraeth yn Nhonyrefail. Daeth yn agos at ennill y Goron yng Nghaerdydd yn 2018 gyda'i

Parhad tudalen 5 >

## Gwisgoedd yr Orsedd

A fydde diddordeb ac amser gyda chi i fod yn rhan o dîm i helpu gyda gwisgoedd yr Orsedd?

Yn gyntaf mae angen eu smwddio! Byddwn yn cwrdd fore Sadwrn Gorff 27ain - amser a lleoliad i'w cadarnhau. Fe fydd angen i chi ddod a'ch bwrdd smwddio a haearn gyda chi!

Yn ail rydym yn chwilio am griw i helpu dosbarthu'r gwisgoedd i'r Orsedd fore Llun, Mercher a Gwener tua 8.30 a.m. - mwy na thebyg yng nghefn y Pafiliwn. Wedyn help cyn y seremonïau - Coroni, y Fedal Ryddiaith a'r Cadeirio am tua 2.30p.m. Rydym yn sylweddoli fod nifer ohonoch â dyletswyddau eraill yn ystod yr wythnos ond os fedrwch wneud un o'r sesiynau cysylltwch â fi am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli. Gobeithio cael tocyn maes i bawb am eich cymorth.
Jayne Rees
07968438314

### Ar drywydd llên yn Rhondda Cynon Taf (parhad)

gerdd 'Mas'. Gofynnais iddo, trwy ei fam, Helen a allai anfon cerdd ar gyfer y rhifyn hwn o *Tafod Elái*, yn ymwneud mewn rhyw ffordd ag ardal yr Eisteddfod eleni. Trysorwn y gerdd a anfonodd, sy'n dweud cymaint am hanes yr ardal. Yng nglofa'r Albion, Cilfynydd, ar y prynhawn hwnnw yn 1894, lladdwyd 290 o ddynion a bechgyn, gadawyd 150 o fenywod yn weddwon a 350 o blant yn amddifad:

**Cilfynydd, 1894**

Mor dwym oedd dŵr ei fath boreol, mor braf
y bore hwnnw, a hithau 'di codi'n gynnar
i arllwys diferion ei hymrwymiad i'r twb.
Sgrwbiodd hagrwch y gwaith oddi ar gefn
ei gŵr a mwytho'r straen oedd yn dalpiau
lletchwith yn ei wallt. Ac am eiliad, nid oedd craith
na phoen, dim ond dwylo tyner yn cloddio'r
tyndra o'r corff. Heno, mae hi'n dal i fod yno
ger y bath, yn gwlychu'r twb â diferion
ei thorcalon. A'r dŵr yn oer.

Mae **Ysgol Gyfun Cwm Rhondda** (y Cymer gynt) ac **Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun** yn ysgolion ychydig iau, ond eisoes maent yn cynhyrchu llenorion, gan gynnwys y bardd, y cartwnydd, y cyflwynydd teledu a'r awdur llyfrau plant **Siôn Tomos Owen** o Ysgol y Cymer, a **Morgan a Lewis Owen**, dau frawd sy'n ysgrifennu a barddoni ac yn gysylltiedig â Chyhoeddiadau'r Stamp, a gafodd eu haddysg uwchradd yn Rhydywaun. Cyhoeddodd **Morgan Owen** bamffled, *moroedd / dŵr* a chyfrol o gerddi, *Bedwen ar y Lloer.* Yn ôl y disgrifiad ar wefan Cyhoeddiadau'r Stamp mae'r gyfrol ddiweddaraf yn cynnwys cerddi natur 'a myfyrdodau sy'n ein tywys at ymylon y rhith-fyd a thu hwnt'.

Bu'n rhaid bodloni ar enghreifftiau'n unig o gynnyrch y pedair ysgol, tra'n llawenhau yn y ffaith bod y pedair yn bwydo parhad llenyddiaeth Gymraeg yn ardal yr Eisteddfod eleni. Mae hi'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.
Diolch ichi am eich cwmni ar y daith.
Mwynhewch yr Ŵyl!

*Glenys M Roberts*

## Clwb Rygbi Pontypridd

Bydd Clwb Rygbi Pontypridd yn troi pennod newydd yn ei hanes pan fydd tymor 2024-25 yn cychwyn ym mis Medi. Mae hyn yn dilyn ail-strwythuro'r cynghreiriau gan Undeb Rygbi Cymru, gan greu adran newydd 'Super Rygbi Cymru' fydd yn cysylltu gydag academïau'r rhanbarthau. Dewisodd CR Pontypridd, am resymau ariannol, i beidio cyflwyno cais i fod yn rhan o'r adran newydd hon, ond yn hytrach i gystadlu yn yr Uwch-Gynghrair sydd wedi ei seilio ar yr hen Bencampwriaeth. Golyga hyn y bydd Ponty y tymor nesaf yn wynebu clybiau fel Castell-Newydd-Emlyn, Aberhonddu, Bonymaen a Bargoed, ynghyd a Merthyr a Chastell Nedd.

Mae cryn ail-strwythuro wedi bod o fewn y garfan hefyd. Yn arwain y tîm hyfforddi fydd y cyn-glo Chris Dicomidis, sydd newydd ymddeol, gyda'r chwaraewyr presennol Garyn Smith a Kristian Parker yn ei gynorthwyo. Wedi i nifer o aelodau adael dros yr haf, bydd golwg newydd ar y garfan, dan gapteiniaeth y blaenasgellwr Cally James. Mae rhai o'r chwaraewyr mwy profiadol fel y cefnwr Dale Stuckey, y mewnwr Joel Raikes, y bachwr Rob Jones, y clo Macauley Cook a'r wythwr Joe Miles wedi aros, ac ymysg y newydd-ddyfodiaid y mae'r asgellwr grymus Joe Davies o Lanharan, y canolwr dawnus Ioan Evans o Cornish Pirates a'r maswr addawol Jacob Symes o Abertawe.



***Ioan Evans - yn dychwelyd i Ponty o'r Cornish Pirates***

Bydd gemau paratoadol yr haf yn cael eu chwarae, adref yn erbyn Abercwmboi ar nos Wener yr 2il o Awst, oddi cartref yn erbyn Dinbych-y-pysgod y Sadwrn canlynol, wedyn dwy gêm gartref, yn erbyn Cinderford ar ddydd Sadwrn yr 17eg o Awst ac yn erbyn yr hen elyn Caerdydd ar y 24ain. Gartref ar Heol Sardis y bydd Ponty yn chwarae ei gem gyntaf yn yr Uwch-Gynghrair, hynny yn erbyn Bargoed ar ddydd Sadwrn y 14eg o Fedi.

Am holl fanylion y garfan, tocynnau tymor a'r gemau cynghrair, ymwelwch â gwefan CR Pontypridd - www.ponty.net

## TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

**Pwyllgor Codi Arian Eisteddfod 2024**
Diolch yn fawr iawn i'r criw bach ond gweithgar sydd wrthi'n trefnu digwyddiadau yn Nhonyrefail a'r Gilfach Goch. Cafwyd dau ddigwyddiad yn ystod y mis diwethaf: Sêl Cist Car a Gyrfa Chwist gyda physgod a sglodion hyfryd o'r Hippy Chippy yn y Gilfach Goch.

Diolch yn fawr iawn i Ceri Morgan am ddod i Donyrefail i'n rhoi ar ben ffordd yn yr Yrfa Chwist.



**Grŵp Sgwrsio Ar Ben y Byd**
Mae criw yn cwrdd bob yn ail ddydd Mawrth yng nghaffi Ar Ben y Byd yn Mill Street am 1pm i gael clonc yn Gymraeg. Croeso i bawb

**Sŵl Cist Car**
Diolch byth, roedd yn ddiwrnod barf ar gyfer y Sêl Cist Car. Cafodd Carol ac Ann lawer o hwyl ar y tombola.





# EFAIL ISAF

*Gohebydd Lleol:*
*Loreen Williams*

**Brodyr o'r Efail Isaf yn Serennu**
Llongyfarchiadau i'r ddau frawd, Ioan a Steffan Emanuel, sydd wedi eu dewis i chwarae yn Nhîm Rygbi Cymru o dan 20 oed ym Mhencampwriaeth y Byd yn Ne'r Affrig. Bydd hwn yn brofiad unigryw i'r ddau i gael cyd-chwarae ar y lefel uchaf a chael treulio mis yn Ne'r Affrig.

Mae Ioan yn faswr gyda thîm rygbi Caerfaddon ac mae Steffan newydd arwyddo cytundeb gyda Chlwb Rygbi Caerdydd. Roedd yn dda gwylio'r ddau frawd yn cael eu cyfweld gan Daf Wyn ar raglen Heno. Pob hwyl i chi eich dau.



Ioan a Steffan Emanuel

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau gwresog i Brengain, merch Heulyn a Catrin Rhys, Penywaun ar gael ei phenodi i Staff Ysbyty Felindre yng Nghaerdydd. Treuliodd Brengain dair blynedd yn hyfforddi fel nyrs ym Mangor. Dymuniadau gorau i ti yn dy swydd gyntaf.

**Hanes Arbennig Iawn**
Derbyniais lythyr gan Delma, fy chwaer sy'n byw yng Nghaersws yn ddiweddar yn cynnwys y llun diddorol yma o hances yn hysbysebu Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd yn y flwyddyn 1893. Daethpwyd o hyd i'r hances ymhlith eiddo gwraig o'r enw Mrs Mary Williams o Gaersws a fu farw yn 101 oed nôl yng nghanol y ganrif ddiwethaf. Mae'r llun ar ganol yr hances yn dangos corff losgi'r Doctor William Price ar Gomin Llantrisant ac yn rhyfedd ddigon mae'n debyg fod Mrs Mary Williams a'i brawd yn bresennol yn y digwyddiad hwnnw.

Hysbyseb ar ran siop dillad Jones o Bontypridd yw'r hances ac mae'n ddiddorol sylwi ar y penillion o gwmpas y llun.

Henffych well fy hoff gydwladwyr
Ydwyf gadach gwyn a fydd
Yn arhosol goffadwriaeth
Am Eisteddfod Pontypridd.

Arnaf cewch yn argraffedig
Rhyfeddodau mawr eu bri,
Ond eu coron fyth gofiedig
Yw Eisteddfod '93.

Llwydd, llwydd Eisteddfod lawen
Ein haruchel Ŵyl;
A lawer cân ac awen
Mae Cymru'n codi hwyl.

A'r pennill olaf yn hysbyseb i'r siop ddillad

Llu y Bryniau a thrigolion
Cymoedd Rhondda, Glannau'r Dâr
Os am ddillad, rhataf, gorau
Trowch at Jones y Market Sgwâr.

**Dymuniadau da**
Dymunwn yn dda i nifer o'r pentrefwyr sydd yn prysur baratoi ac ymarfer ar gyfer cystadlu a pherfformio yn yr Eisteddfod.

Pob hwyl i bob aelod o gôr, neu barti, dawnswyr neu unigolion.

**Pen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Carey a fydd yn cyrraedd carreg filltir arbennig iawn yn ystod y mis.

**Y TABERNACL**
**Llwyddiant Eisteddfodol**
Llongyfarchiadau i aelodau'r Ysgol Sul a Theulu Twm ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Daeth Teleri Gwen Lloyd o Ysgol Llantrisant yn ail yn y gystadleuaeth Llefaru Bl2 ac iau. Mi enillodd Beca George y wobr gyntaf am Stepio i ferched Bl9 ac iau, ac mi roedd yn aelod o'r Grŵp Dawnsio gwerin Bl 7,8 a 9 a ddaeth a buddugoliaeth i Adran Bro Taf.

**Cwmni Milddail**
Roedd yn braf clywed hanes sefydlu'r cwmni Milddail ar raglen Siân Cothi yn ystod y mis. Mae gan Heledd Hughes ddiddordeb mawr mewn trefnu blodau ac mae wrth ei bodd yn rhedeg y cwmni Milddail o'i chartref.

**Brecwast Haf y Tabernacl**
Beth am ddod i Frecwast Haf y Tabernacl yn neuadd y Pentref ar ddydd Sul, Gorffennaf 7fed am 9.30 y bore. Codir £10 y pen ar yr Oedolion, a'r plant yn rhad. Trosglwyddir elw'r bore i Elusen Ffynhonnau Byw, Apêl Undeb yr Annibynwyr.

Parhad tudalen 11 >




**Orig yng Nghwmni'r Deires**
Cafwyd gwledd gerddorol yn Y Tabernacl brynhawn Sadwrn, Mehefin 15fed. Daeth pum aelod o Gymdeithas y Delyn Deires ynghyd i ymarfer ac i gyflwyno orig o alawon gwerin Gymreig i'r gynulleidfa. Cawsom ychydig o hanes y Gymdeithas gan Rhiain Bebb a Robin Huw Bowen. Lansiwyd y Gymdeithas gan fod pryder am barhad y grefft o ganu'r delyn deires. Penderfynwyd cynnal gweithdai a pherfformiadau er mwyn denu sylw a chefnogaeth i'r grefft hynod yma. A dyna a gawsom yn yr Efail Isaf y prynhawn Sadwrn hwnnw. I'r rhai cafodd eu gwefreiddio gan sain y telynau yn y Tabernacl, daw cyfle eto i'w clywed yn Y Tŷ Gwerin am 14:45 ar ddydd Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod ym Mhontypridd. Codwyd £230 tuag at apêl yr Eisteddfod mewn casgliad ar ddiwedd y perfformiad.



# Efail Isaf
O dudalen 10

**Merched y Tabernacl**
Aeth nifer o aelodau merched y Tabernacl draw i Winllan Llanerch fore Gwener, Mehefin 7fed. Roedd pob un â'u sgidiau cerdded yn barod i fynd am dro, ond fel roedd pawb yn cyrraedd y maes parcio fe gyrhaeddodd y glaw hefyd! Doedd neb yn awyddus i gael gwlychfa felly dyma benderfynu mynd am baned a chlonc i'r gwesty. Gan i ni fethu cael cerdded yn Llanerch dyma drefnu mynd am daith gerdded o amgylch y pentref yn Efail Isaf, fore Gwener, Gorffennaf 5ed gan gyfarfod ym maes parcio neuadd y Pentref am hanner awr wedi 10 y bore ac yna dod nôl am baned i'r Ganolfan

**Oedfa o fawl**
Cynhelir Oedfa o fawl yn y Tabernacl, nos Wener, Gorffennaf 12fed am hanner awr wedi saith yr hwyr fel rhan o Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Llywydd yr Oedfa fydd Y Parchedig Jeffrey Williams a thraddodir y bregeth gan Y Parchedig Euron Hughes.

**"Dechrau Canu, Dechrau Canmol"**
Ddechrau mis Mehefin bu Cwmni Teledu Rondo'n ymweld â'r Tabernacl i recordio rhaglen ar gyfer y gyfres "Dechrau Canu, Dechrau Canmol" a darlledir yn gynnar yn yr Hydref. Portreadir gwaith yr elusennau yn y capel a'r gymuned sydd yn gweithio gyda'r rhai sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig yn ardal Rhondda Cynon Taf. Ceir cip ar sut mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol o dan arweiniad medrus John Llywelyn Thomas yn llwyddo i ddodrefnu fflat neu dŷ gan helpu unigolion wrth iddynt symud o loches dros-dro neu gyfnod digartref.




Adroddir hanes sefydlu'r ardd gymunedol a'r Cwtsh Meddwlgarwch. Lowri Morgan oedd yn cyflwyno'r rhaglen ac mae yna gryn edrych ymlaen ymhlith yr aelodau i gael gwylio'r rhaglen.

# Ysgol Evan James

**Diogelwch yn y dŵr**
Diolch i Ms Hares a Mr Gronow am ddod i'r ysgol i gynnal sesiynau yn dysgu pawb sut i gadw'n ddiogel yn y dŵr. Trafododd y plant yn wych ac maent nawr yn gwybod sut i gadw'n ddiogel cyn mynd i'r pwll nofio a'r môr yn ystod yr haf.



**Lansiad ffilm fer**
Mae disgyblion o flwyddyn 5 wedi bod yn hynod o brysur dros y misoedd diwethaf. Roeddent yn ffodus iawn i allu cyflwyno eu gwaith ymchwil ar atyniadau yn yr ardal ar ffurf ffilm. Cydweithiodd y disgyblion gydag Ysgol Abercynon ac Ysgol Llwyncelyn a chwmni ffilmio proffesiynol er mwyn creu ffilm yn croesawu ymwelwyr i'r ardal pan ddaw'r Eisteddfod Genedlaethol i Bontypridd ym mis Awst. Cynhaliwyd noson arbennig yn lansio'r ffilm yn YMA, Pontypridd. Noson i'w chofio.



**Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst**
Gorffennaf 7fed Brecwast Haf o 9.30 ymlaen. Oedfa yng ngofal Geraint Rees ac Eleri Mai.
Gorffennaf 14eg Y Parchedig Robin Samuel
Gorffennaf 21ain Edwyn Evans
Gorffennaf 28ain Oedfa ym Methlehem, Gwaelod y Garth am 10.30 y bore.

Awst 4ydd Oedfa'r Eisteddfod yn y Pafiliwn am 9yb.
Awst 11eg Oedfa ym Methlehem, Gwaelod y Garth am 10.30 y bore.
Awst 18fed Geraint Rees
Awst 25ain Oedfa ym Methlehem, Gwaelod y Garth am 10.30 y bore.

**Llwyddiannau ein disgyblion**
Llongyfrachiadau i Elsie Ivey o Ddosbarth Pwyll a Rhiannon am ennill gwobr am ddylunio stondin i farchnad Pontypridd. Mae stondin Elsie yn cynnwys pob math o losin!

**Prosiect Celf**
Diolch yn fawr i gwmni Knights Brown am beintio wal fawr ar iard ein hysgol. Mae'r wal nawr yn barod i arddangos gwaith celf Dosbarth Blodeuwedd sy'n edrych ar fannau arbennig Pontypridd. Gweithiodd y dosbarth gyda chwmni CISP o Sir Gaerfyrddin sy'n arbenigo mewn prosiectau creadigol. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith gorffenedig ar y wal.

**Merched y Wawr**
Mwynheuodd disgyblion blwyddyn 2 sesiwn ganu alawon gwerin gyda'r gantores Bethan Nia. Diolch yn fawr i Ferched y Wawr am drefnu'r sesiwn. Bydd rhai o'r plant yn perfformio rhai o'r caneuon yn yr Eisteddfod Genedlaethol.



**Gwobr Aur y Siarter Iaith**
Mae'r Criw Cymreig a Miss Spencer wrth eu boddau yn dilyn y newyddion ein bod wedi ennill Gwobr Aur y Siarter Iaith. Mae'r Criw Cymreig wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y Gymraeg yn fwy blaenllaw yn ein cymuned a'n tref. Llongyfarchiadau i bawb!

**Ambiwlans Sant Ioan**
Diolch i weithwyr o Ambiwlans Sant Ioan am ddod i'r ysgol i roi gywbod i Ddosbarth Sali Mali beth ddylem ei wneud mewn argyfwng.









# Gwlad Newydd Y Merched

**Prosiect Merched y Wawr y De-ddwyrain a De Powys yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf.**

Ers 1980 mae mudiad Merched y Wawr wedi bod â stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Gyda'r eisteddfod yn teithio o amgylch Cymru mae'r stondin wedi dod yn hafan ar gyfer codi sylw ac ymwybyddiaeth ein haelodau a'r cyhoedd o'r rhanbarth lle mae'n cael ei chynnal. Eleni, Rhondda Cynon Tâf sydd â'r amlygrwydd. Yn ôl ym mis Medi 2022 cafwyd trafodaeth yn ein canghennau lleol, Tonysguboriau a Phontypridd, am beth ddylem ffocysu arno. Gan fod yr eisteddfod yn cael ei chynnal yn yr ardal lle gyfansoddwyd ein hanthem genedlaethol penderfynwyd rhoi tro newydd ar y teitl a dilyn y syniad a gyflwynwyd gan Helen Prosser (aelod o gangen Tonysguboriau a hefyd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith) sef 'Gwlad Newydd y Merched'.

Llifodd y syniadau ac roedd yn amlwg fod angen nodau clir o'r hyn yr oeddem am ei gyflawni yn yr amser byr oedd ar gael cyn dyddiad yr Eisteddfod. Arweiniodd trafodaethau pellach at gytuno ar yr hyn y dylai ein nodau fod, sef dathlu a chofnodi cyfraniad Addysg Gymraeg yn RhCT; rhoi cydnabyddiaeth i fenywod sy wedi bod yn arloesol yn sefydlu addysg Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf a'r rhai sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig ar ôl derbyn addysg Gymraeg; creu arddangosfa a chyflwyniad i Eisteddfod RhCT a gweithio mewn partneriaeth gydag Ysgolion Cymraeg a Menter Iaith yn RhCT. Llwyddwyd cael grant Cronfa Gymunedol y Loteri sydd wedi caniatáu ni gynnal tri gweithdy i'n aelodau, trefnu sesiynau hwiangerddi a chaneuon gwerin i blant ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg RhCT ac ymweliadau â disgyblion ysgolion uwchradd Cymraeg y sir gan ferched amlwg yn eu meysydd sydd wedi derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Trefnwyd gweithdai i ddatblygu sgiliau ar gyfer casglu a chyflwyno gwybodaeth y merched fu'n ddylanwadol yn sefydlu addysg Gymraeg yn y sir gan gynnwys sut i baratoi gwybodaeth a'i gyflwyno ar faes yr eisteddfod trwy godau QR. Fel rhan o'r gwaith ymchwil a wnaethpwyd darganfuwyd detholiadau o ganeuon gwerin a gafodd eu defnyddio mewn cymanfaoedd gwerin yn ystod y ganrif ddiwethaf ac fe fydd Cân y Cymoedd ar faes yr Eisteddfod ar ddydd Merched 7fed. Gydag arweiniad Becky Davies fe fydd arddangosfa unigryw wedi'i greu ar gyfer stondin MyW sy'n cydnabod nifer o'r menywod sy'n allweddol yn y byd addysg Gymraeg yn y sir. Mi fydd croeso cynnes i bawb am ddisgled a sgwrs yn uned Merched y Wawr yn Ynys Angharad a chyfle i ddod i wybod mwy am ferched nodedig Rhondda Cynon Taf.

Mae rhaglen amrywiol a ddiddorol wedi ei drefnu ar gyfer wythnos yr eisteddfod.

# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

## Aur hylifol?





*'Mae prisiau olew olewydd ar fin dringo ymhellach eleni gan anelu at fwy na £16 y litr am botel gyda chwymp mewn cynhyrchiant byd-eang i'r lefel isaf mewn mwy na degawd'* oedd y pennawd mewn papur cenedlaethol yn ddiweddar.

Nid oedd olew olewydd yn arfer bod yn destun sgwrs nac yn deilwng o benawdau papur newydd, ac yn sicr nid oedd yn gynhwysyn coginio: roedd yn rhywbeth a gedwir y tu ôl i'r cownter yn y fferyllfa, ynghyd â chaolin, morffin a surop ffigys. Sawl un ohonoch gafodd yr olew wedi ei gynhesu ar lwy te cyn ei roi yn eich clust pan oeddech yn blentyn? Y dyddiau hyn, gellir clywed sgyrsiau dros droliau mewn archfarchnad a darllen ar y cyfryngau cymdeithasol am y cynnydd enfawr ym mhris cynnyrch sydd bellach yn llenwi sawl silff mewn siopau. Mae'r cynnydd yn y pris hyd yn oed wedi arwain at droseddwyr yn gorlifo'r farchnad ag olew olewydd ffug gyda 450 litr wedi'i atafaelu'n ddiweddar ger Lisbon, Portiwgal, yn ôl yr Awdurdod Bwyd a Diogelwch Economaidd. Nid yw bellach yn anghyffredin gweld poteli olew olewydd gyda thagiau diogelwch ynghlwm wrthynt yn archfarchnadoedd Ewropeaidd ac ym Mhrydain.

Pam ei fod wedi dod mor ddrud? O ran allforion olew olewydd gwyryfon, Sbaen yw'r cynhyrchydd a'r allforiwr mwyaf o olew olewydd yn y byd, yna'r Eidal, Moroco, a Phortiwgal. Mae Gwlad Groeg, Tiwnisia, a Thwrci hefyd yn allforio olew olewydd. Cafodd llwyni olewydd ledled Ewrop eu taro gan yr haf poethaf erioed y llynedd gyda choed yn dioddef o wres a sychder eithafol. Roedd Sbaen hefyd wedi dioddef o danau gwyllt yn 2023. Mae cynhyrchu is yng Ngwlad Groeg, Moroco a Thwrci fel rhan o gylch naturiol twf olewydd hefyd wedi gwaethygu'r prinder. Disgwylir i ychydig llai na 2.3m tunnell gael ei gynhyrchu'n fyd-eang eleni. O ganlyniad mae'r gost i ddefnyddwyr wedi mwy na dyblu ers 2018 gyda'r cynnydd mwyaf o 39% eleni. Daeth y newyddion tra oeddwn yn paratoi'r erthygl hwn fod Sbaen yn dileu'r dreth werthiant ar olew olewydd dros dro o'r mis yma hyd ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn i helpu defnyddwyr ymdopi â phrisiau uchel a hefyd mewn ymateb i'r ffaith fod Gwlad Groeg a Sbaen ill dau wedi gweld gwerthiant olew olewydd yn plymio o draean dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae gan olew olewydd flas unigryw sy'n dibynnu ar ei wlad wreiddiol. Yn gyffredinol, po boethaf yw'r wlad, y mwyaf dwys yw blas yr olew. Mae hefyd yn bosibl blasu olew olewydd gyda pherlysiau a sbeisys trwy eu trwytho yn yr olew. Mae technegau prosesu yn arwain at olewau olewydd o wahanol raddau. Yn draddodiadol, roedd matiau cywarch yn cael eu defnyddio i i echdynnu'r olew o'r olewydd. Roedd matiau yn cael eu gwasgu mewn gweisg sgriw enfawr a'r olew yn cael ei gasglu mewn amfforâu crochenwaith mawr.





Y dyddiau hyn, mae'r rhan fwyaf o'r olew yn cael ei brosesu trwy nyddu'r past mewn centrifuge. Mae cynhesu'r past yn gwneud y broses echdynnu'n fwy effeithiol, ond gall hyn effeithio ar flas yr olew. Os yw'r label ar yr olew yn dweud ei fod wedi'i Wasgu'n Oer neu wedi'i Echdynnu'n Oer mae'n golygu nad yw'r olew wedi'i gynhesu'n uwch na 27C. Roedd lliw gwyrdd tywyll yn arfer bod yn arwydd o ansawdd uchel ond, gyda newidiadau mewn technegau cynhyrchu, mae peth o'r olew olewydd gorau bellach yn olau. Peidiwch wario mwy yn olew olewydd gyda label sy'n datgan ei fod 'o'r wasg gyntaf' - ystryw farchnata yw hwn, dim ond unwaith yn unig mae pob olew olewydd crai ond yn cael ei wasgu neu ei droelli!

Mae erthygl Stuart Jeffries o'r *Guardian* yn rhoi gogwydd doniol ar sut mae ein perthynas ag olew olewydd wedi newid - *'Daeth y Rhufeiniaid ag olew olewydd i Brydain, ond profodd yr un mor apelgar i'r boblogaeth leol â gwisgo togas a sandalau wrth gerdded ar hyd Mur Hadrian….Mae Armada Sbaenaidd 1588 wedi cael ei chamddeall ers canrifoedd. Nid antur filwrol gan dalaith Gatholig ydoedd gyda'r nod o ddymchwel brenhines Brotestannaidd Lloegr, ond yn hytrach ymgais i gychwyn busnes allforio olew olewydd Sbaenaidd mawr: roedd y galiynau Sbaenaidd yn cario 40,000 galwyn o'r stwff!'* Fel mae pethau wedi newid! Amcangyfrifir bod marchnad olew olewydd Prydain werth dros £ 250m y flwyddyn erbyn hyn. Mae ein gwyliau yng ngwledydd Môr y Canoldir, profiadau bwyta allan ehangach a mwy o bwyslais ar fwyta'n iach yn cael eu dyfynnu fel rhesymau pam rydyn ni nawr yn prynu mwy o olew olewydd nag erioed.

Mae olew olewydd yn boblogaidd nid yn unig oherwydd ei flas ond hefyd am ei briodweddau maethol. Mae'n olew mono-annirlawn ac, fel cynnyrch planhigion, nid yw'n cynnwys colesterol. Mae'n uchel mewn gwrthocsidyddion (ffenolau a Fitamin E) ac fe'i hystyrir yn gyfrannwr pwysig i ddiet 'Môr y Canoldir' a gymeradwyir i fod yn fuddiol i'n hiechyd. Gyda'r un nodweddion maethol ag olew olewydd, mae olew had rêp yn uchel mewn braster mono-annirlawn ac yn gyfoethog mewn fitamin E, yn ogystal â brasterau omega 3, 6 a 9, sy'n cefnogi gweithrediad yr ymennydd, y galon a'r cymalau.

Mae olew had rêp yn cael ei dyfu ym Mhrydain felly mae ganddo allyriadau carbon is o gludiant nag olew wedi'i fewnforio. Fodd bynnag, mae effeithiau newid hinsawdd sy'n cael eu teimlo ledled y byd hefyd wedi dylanwadu ar ei gynhyrchiant yn y DU gyda llifogydd eithafol a'r gaeafau gwlypach nag arfer. Disgwylir i'r cynnyrch fod cymaint â 38% yn is eleni o gymharu â 2023. Gyda defnydd helaeth ohono gan gwmnïau arlwyo a siopau pysgod a sglodion gall hyn gael effaith ar brisiau i ddefnyddwyr.

Mae olew olewydd yn addas ar gyfer ffrio oherwydd ei bwynt mwg uchel. 'Pwynt mwg' olew yw pan fydd asidau brasterog yn dechrau dadelfennu - po uchaf yw'r pwynt mwg, y mwyaf yw'r sefydlogrwydd. Ond os nad yw'r blas olew olewydd "yn nodwedd amlwg" yn y rysáit gallwch ddefnyddio olew rhatach â blas niwtral fel olew had rêp ac olew blodyn yr haul sydd hefyd a phwynt mwg uchel. Arbedwch eich olew olewydd ar gyfer ei brif swyddogaeth o ychwanegu blas at fwydydd trwy ei ddefnyddio mewn 'dip' neu ddresin.

Mae adroddiad yn y cylchgrawn *'Which?'* yn argymell prynu olew olewydd sydd â labeli archfarchnad eu hunain; yn eu profion darganfuwyd fod y gorau o'r rhain â phroffil blas cystal â'r rhai drutaf. Wrth storio'r olew gwarchodwch ef rhag gwres a golau i wneud yn siŵr nad yw'n mynd yn wastraff. Tuniau a photeli tywyll sydd orau gan eu bod yn helpu i gau'r golau allan. Gwiriwch y dyddiad 'Ar Orau Cyn' pan fyddwch chi'n ei brynu hefyd. Mae olewau olewydd mwy ffres yn blasu'n well.

Y cyngor gorau yw defnyddio dulliau coginio sy'n defnyddio ychydig neu ddim olew a braster lle bo modd. Dyma le gall defnyddio peiriant ffrio aer fod o fantais i chi! Ac, wrth gwrs, fel dywedodd Stuart Jeffries, *"Ni allwch goginio sglodion mewn olew olewydd. Oherwydd bod un peth yn sicr: gall olew olewydd wneud llawer o bethau rhyfeddol, ond nid yw'n cynnwys cynhwysyn cyfrinachol i atal eich sglodion rhag mynd yn soeglyd".*



# Coron a Chadair Hardd

Cyflwynwyd Coron a Chadair Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf i Bwyllgor Gwaith y Brifwyl mewn seremoni arbennig yn y Guildhall, Llantrisant ym mis Mehefin.

Noddir y Goron a chyflwynir y wobr ariannol o £750 gan Ysgol Garth Olwg, sydd yn parhau i feithrin Cymry Cymraeg balch yn ardal Pontypridd. Cynlluniwyd a chynhyrchwyd y Goron gan Elan Rhys Rowlands.

Fe'i cyflwynir am bryddest neu gasgliad o gerddi heb fod mewn cynghanedd, hyd at 250 o linellau, ar y pwnc 'Atgof'. Y beirniaid eleni yw Tudur Dylan Jones, Elinor Gwynn a Guto Dafydd.

Cyfunodd Elan nodweddion trawiadol Hen Bont Pontypridd gyda phatrwm nodau ein hanthem genedlaethol a gyfansoddwyd yn y dref.

Fel rhan o'i chais gwreiddiol, creodd Elan fwrdd syniadau yn cynnwys enwogion a nodweddion arwyddocaol ardal Rhondda Cynon Taf. Ymysg yr enwogion roedd y tad a'r mab James James ac Evan James a gyfansoddodd 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

Awgrymodd bod y Goron yn cael ei chreu gyda darnau bychan o arian pur wedi'u gosod fel tonnau gyda'r bwriad o blethu hanes cerddorol yr ardal i mewn i'r Goron. Gosodwyd teitl yr Eisteddfod ar y bont i angori'r cynllun ac mae'r Nod Cyfrin, symbol Gorsedd Cymru ers cyfnod Iolo Morganwg, yn addurno blaen y Goron gan ymgorffori'r cysylltiad hanesyddol cryf gyda thraddodiad yr Eisteddfod.

Penderfynodd Elan ddysgu mwy am ardal yr Eisteddfod cyn creu'r Goron ac aeth i Ysgol Garth Olwg, sy'n noddi'r Goron, i gasglu syniadau pobl ifanc yr ardal. Gweithiodd gyda 15 o ddisgyblion ar y prosiect a chymerodd eu syniadau nhw i ystyriaeth yn y dyluniad gorffenedig.

Yn ogystal â'r Goron, mae'r Gadair hefyd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith heno.

Cyflwynir y Gadair eleni am awdl neu gasgliad o gerddi mewn cynghanedd gyflawn ar fwy nag un o'r mesurau traddodiadol, hyd at 250 o linellau, ar y teitl 'Cadwyn'. Y beirniaid yw Aneirin Karadog, Dylan Foster Evans a Huw Meirion Edwards.

Y crefftwr Berian Daniel sy'n gyfrifol am gynllunio a chreu'r Gadair. Noddir y Gadair a'r wobr ariannol gan ddisgyblion a chymuned Ysgol Llanhari ar achlysur dathlu cyfraniad yr ysgol a Theulu Llanhari i 50 mlynedd o addysg Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

Derw o goedwig hynafol, gwaith haearn yn adlewyrchu diwydiant y cymoedd a glo, 'Aur y Rhondda', yw'r nodweddion yn y Gadair eleni.

Mae'r goeden wedi ei thorri yn ei hanner ac yn y canol mae 'afon' o ddarnau glo wedi'u boddi mewn resin gyda'r cwbl yn cael ei ddal yn ei le gan fariau haearn.

Esboniodd yr artist a'r dylunydd, Berian Daniel, bod y tair rhan yn cynrychioli afonydd Rhondda, Cynon a Thaf sy'n rhoi ei henw i'r sir sy'n gartref i'r Brifwyl eleni.

"Disgyblion Ysgol Llanhari ym Mhont-y





-clun ddaeth â'r syniad o greu afon o lo a'r term 'Aur y Rhondda'. Glo ddaeth o ddaear y cymoedd gan greu gwaith a chyfoeth. Ac er bod y diwydiant wedi dod i ben, mae'i ddylanwad yn parhau'n gryf ac roedd yr ysgol am ei weld yn cael ei adlewyrchu yn y gadair hon," meddai.

A hithau'n dathlu ei phen-blwydd yn 50 mlwydd oed yn 2024, yr ysgol hefyd sy'n noddi'r Gadair eleni a bu holl ddisgyblion yr ysgol, yn ogystal â staff a ffrindiau, yn gweithio'n ddiwyd i godi'r arian angenrheidiol. Dros y misoedd diwethaf mae Berian wedi cydweithio gyda grwpiau yn yr ysgol i greu a chwblhau'r dyluniad.

Daeth y pren o goeden oedd yn tyfu'n agos at gartref Iolo Morganwg yn Y Bontfaen. Roedd rhaid i'r afon o lo fod yn gwbl gywir, gan fod pob darn bach wedi'i guddio gan resin, a bu'n rhaid i Berian arbrofi tipyn cyn perffeithio'r afon.

Haearn sy'n creu'r Nod Cyfrin, ac mae elfennau o natur, diwylliant a diwydiant cymoedd Rhondda, Cynon a Thaf yn y Gadair orffenedig. Daw'r ysbrydoliaeth am y rhain gan ddisgyblion yr ysgol.

Wrth dderbyn y Goron a'r Gadair ar ran yr Eisteddfod dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Helen Prosser, "Mae'n bleser bod yma heno i dderbyn y Goron a'r Gadair ar ran yr Eisteddfod.

"Rydyn ni'n ymwybodol iawn ein bod ni'n rhoi cartref i'r Eisteddfod Genedlaethol eleni - ond ein prifwyl ni yw hi, gyda stamp clir y Cymoedd i'w weld yn rhaglen pob un o'r pafiliynau ac, rwy'n falch o ddweud, yn ein Cadair a'n Coron.

Cynhelir seremoni'r Coroni ddydd Llun 5 Awst am 16.00, a seremoni'r Cadeirio ddydd Gwener 9 Awst am 16.00 yn y Pafiliwn.



Mererid Hopwood gyda disgyblion Ysgol Llanhari







# Dathlu Llwyddiant Ysgol Pont Siôn Norton

**Yn d'ysgol di, sgwl y daith - mae enfys**
**yn gymanfa o obaith,**
**Dere i wenu drwy'r heniaith**
**Ym Mhont Sion Norton ein hiaith.**

**Aneirin Karadog**



Dyddiau cynnar yr ysgol

Agorwyd Ysgol Pont Siôn Norton ar Hydref 15ed ym 1951 gyda 15 o blant. Roedden nhw i gyd o gartrefi Cymraeg. Y brifathrawes gyntaf oedd Mrs Gwen Netherway a'r ail oedd Mrs Grace Treharne. Wrth i'r ysgol gau ar ddiwedd tymor yr haf eleni bu cyn-benaethiaid yn hel atgofion am lwyddiannau'r ysgol dros 73 mlynedd.

**Mrs Dorothy Todd**

Mae gennyf lu o atgofion ar ôl bod yn PSN am 28 mlynedd ac wedi arwain y côr am 14 mlynedd ar ôl ymddeol. Penodwyd fi yn brifathrawes yn 1973.



Mrs Todd a'r côr.

Dechreuais yn Medi 1961 yn Ynysybwl, ond doeddwn i ddim yn hapus yno - doeddwn i ddim yn cael chwarae'r piano! Symudais i PSN yn fuan wedyn o dan Mrs Treharne a Mrs Netherway. Roedd gen i blant oedran 3 i 7 i gyd yn yr un dosbarth a dim cynorthwyydd i ddechrau. Roedd y plant lleiaf yn mynd i'r gwely yn y pnawn, ac roedd tân glo ymhob dosbarth. Roedd y tai bach y tu allan ac roedd yr ysgol yn gorfod cau mewn rhew mawr. Tyfodd y rhifau yn gyflym - cymerwyd dros yr ochr Saesneg wrth i niferoedd yr ochr Saesneg ostwng a'n rhifau ni gynyddu. Bron pob plentyn yn dod o gartrefi di Gymraeg. Roedd enwau'r plant ar y rhestr aros cyn gynted ag y'i ganwyd!

Ysgolion Meithrin - roedd 5 yn bwydo'r ysgol - Sardis, Graigwen, Cilfynydd, Ynysybwl a Glyncoch. Yn 1991 cymerwyd dros yr holl adeiladau.

Brwydro i wrthwynebu sefydlu unedau Cymraeg - y Cyngor Sir am sefydlu 3 uned Gymraeg ym Maesycoed, Coedylan a Glyncoch. Ein Rhieni a Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn cysgu yn yr ysgol am dymor cyfan. Roedd llawer o sôn ar y teledu ac yn y papurau. Y canlyniad oedd agor Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James yn 1985 - newyddion da ar ôl brwydro mor hir.

Streic y glowyr - dim glo - silindrau nwy ymhob dosbarth wedyn eu gwerthu! Twll yn yr iard - gwythïen lo o dan yr ysgol. Wal fawr rhwng adeilad 2 a 3 yn beryglus - symudwyd yr adran iau i YGG Evan James am rai wythnosau. Caryl Williams yn aros gyda'r Babanod.



Yr athrawon yn y 1980'au

Gweithgareddau - Eisteddfod yr Urdd - rhan bwysig, a'r Genedlaethol yn Aberafan yn 1966. Urdd - côr, cerdd dant, triawd telyn, llefaru, recorders, nofio, band taro. Pontypridd Music Festival, Urdd Pontypridd 1973 - Taffi a chonffeti Ffair - Cyngherddau Nadolig yn y Tabernacl, yna'r Amgueddfa, Capel Sardis, Cwis Llyfrau Aberystwyth.



Tripiau - Trên i faes awyr Heathrow, Gwarchodfa adar Penscynnor, Llyn Brianne, Gwlad Belg a Ffrainc.

Tocynnau iaith - llys mwyaf o docynnau - amser chwarae ychwanegol.

Dyletswyddau bws - Plant Nelson, Treharris, Penrhiwceiber - bws coch a gwyn. PUDC - Maesycoed a'r dref. Humphreys - Graigwen. Jones Motors - Ynysybwl a Glyncoch.

Rydw i'n ymfalchïo yng nghyfraniad yr ysgol i elusennau a llwyddiannau cyn-ddisgyblion. Blin iawn oedd colli tri aelod o'r staff a gyfrannodd yn helaeth i PSN, sef Elwyn Hughes, Bryn Evans a Gwenllïan Jenkins.

Gai ddymuno pob llwyddiant i Ysgol Awel Taf, edrychwn ymlaen yn hyderus i'r dyfodol ac hefyd i lwyddiant yr Eisteddfod Genedlaetholl ym Mhontypridd yn mis Awst.

**Mr Duan Evans**

Mae fy nghysylltiad ag Ysgol Pont Siôn Norton yn mynd nôl mor bell â 2005. Tra'n Bennaeth yn YGG Abercynon, fe ofynnodd yr Awdurdod Lleol i fi fugeilio'r ysgol. Dau beth oedd yn fy nharo i'r adeg hynny oedd yr ymdeimlad o berthyn i deulu a'r ffordd roedd y plant yn dwlu canu. Mae'r diolch hynny yn bennaf i Mrs Todd a Mrs Williams a'r sawl sy wedi dilyn yn ôl eu traed.

Yna yn 2007 tan 2014 des i'n Ymgynghorydd Addysg i'r ysgol tra'n gweithio i ESIS a'r Consortiwm. Mae'n wir i ddweud bod yr ysgol wedi profi cyfnod tywyll yr adeg hynny ond o'n i wastad yn cydnabod potensial y lle. Felly pan ddaeth swydd y Pennaeth yn wag yn hwyr yn 2013 fe neidiais ar y cyfle i gymryd yr awenau. Yn 2014 gyda chydweithrediad llwyr y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni a'r plant daeth haul ar fryn unwaith eto. Ac fe ffynnodd yr ysgol.

Wel mae cyfnod PSN yn dod i ben ac mae hynny yn ergyd ac yn fater o dristwch - bydd hiraeth yng nghalonnau pob un ohonom - serch hynny mae plant yr ysgol yn haeddu cyfleusterau'r 21ain ganrif. Cofiwch dyw adeilad newydd ddim yn gwneud ysgol dda! I chi sy'n dal i fy nabod yn broffesiynol mae fy mlaenoriaeth bennaf ar hyd fy ngyrfa wedi bod yn gysylltiedig â sicrhau bod y Gymraeg yn atsain yn ein hysgolion.

Felly Ysgol Awel Taf - dymunaf bob llwyddiant iddi ond rwy'n erfyn arnoch fel staff, llywodraethwyr a rhieni i fynnu defnydd y Gymraeg. Mae her arbennig o'ch blaen i asio dwy gymuned a magu Cymreictod ymysg pawb.

Yr apel olaf sy gen i yw i beidio colli'r teimlad o berthyn i deulu PSN (rwy'n siwr fel chi, rwy'n aelod am weddill fy oes) a hefyd sicrhewch bod y plant yn parhau i ddwlu canu. Mae lleisiau anhygoel y plant ar hyd y blynyddoedd wedi cronni dagrau yn fy llygaid ar sawl achlysur.

Pob dymuniad da a chofiwch y byddaf yn gwylio o bell!

Parhad tudalen 12 >

## Atgofion Ysgol Pont Siôn Norton (Parhad)



Mr Alun Williams a'r tîm rygbi yn y 90'au.

**Mr Alun Williams**

Dwi'n gwerthfawrogi'r cyfle i fynychu'r noson arbennig hon yn fawr iawn, er bod yr achlysur yn un drist ofnadwy gyda PSN yn cau ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, mae'n braf iawn i weld cymaint o benaethiaid, staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr. Oherwydd dyma yw gwir ystyr Ysgol Pont Siôn Norton – cymuned ysgol ofalgar, gynhwysol a chariadus.

Fues i yn lwcus i ddilyn Mrs Dorothy Todd, Mrs Caryl Williams a Mrs Meira Evans fel pennaeth yr ysgol a dysgais i gymaint gan bob ohonynt.

Dwi'n falch bydd plant PSN yn cael mynediad at adeilad newydd sbon, gyda phob math o gyfleusterau hyfryd - ac iard fflat o'r diwedd! Mae'r adeiladau presennol wedi bod yn gartref i gannoedd o blant dros y blynyddoedd ac mae'n wir ddrwg gen i feddwl am yr hen le yn wag - ond nid adeilad sy'n creu naws ysgol arbennig ond yr oedolion a'r plant sydd tu mewn iddi - dyna yw gwir ystyr Teulu Pont Siôn Norton.

Pob lwc i bawb yn y dyfodol – edrychaf ymlaen at glywed am yr holl lwyddiannau sydd i ddod – ond am heddiw, yn y foment olaf yma i hiraethu am y dyddiau a fu – hwyl fawr i'r tri adeilad hynaws ar ochr y mynydd – diolch am yr atgofion!

**Mrs Meira Evans**

Mae hanes Pont Siôn Norton yn mynd nôl i 50'au y ganrif ddiwethaf a chyda dycnwch a chydweithrediad rhieni a staff balch yr ysgol bu i'r ysgol ffynnu am fwy na 70 o flynyddoedd. Bydd chwith meddwl na fydd ysgol Pont Siôn Norton yn bodoli eto, ond mi fydd enw'r ysgol yn mynd lawr yn hanes addysg Gymraeg Cymru gyfan.

**Mrs Caryl Williams**

Agorwyd yr ysgol yn 1951 pan oeddwn yn 7 oed gan rieni oedd yn Gymry Cymraeg. Rhieni oedd yn teimlo bod angen ysgol Gymraeg ei hiaith oherwydd effaith yr iaith Saesneg ar eu teuluoedd., rhieni fel rhieni Alun Caffrey, Arwel, Alun a fi. Buon nhw'n ymladd yn frwd heb lawer o gefnogaeth yr awdurdod lleol, a llwyddo yn y diwedd, er gwaethaf pob gwrthwynebiad. Pan agorodd yr ysgol dim ond 15 o blant oedd ar y gofrestr, yn dod o Ynysybwl, Cilfynydd, Nelson ac o dre Pontypridd. Doedd dim Glyncoch bryd hynny, dim ond caeau a pheilon pŵer mawr yn y canol. Mrs Netherway oedd y brifathrawes gyntaf, a Miss Roberts o Aberdâr yn cael ei hapwyntio fel athrawes ymhen ychydig.



Mrs Caryl Williams a'r plant yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.



Dosbarth Babanod yn yr 1980'au

Roed y celfi yn yr ysgol yn hen ac wedi dod o ysgolion eraill, ond roedd nifer o bethau deniadol o gwmpas yr adeilad, e.e. lluniau, dreser bach a set o lestri te doli, llyfrau i'r llyfrgell ac yn arbennig y delyn, pob un yno drwy garedigrwydd Mrs Netherway.

Nes ymlaen fe wnaeth Mr Mower, athro gwaith coed yr ysgolion uwchradd gopi o droell inni - roedd ei weithdy mewn sied werdd ar yr iard, ond newidiodd enw y droell pan ofynnodd Seiriol Thomas o Nelson pam oedd na Wagon Wheel tu allan i swyddfa'r brifathrawes!



Troell a grewyd gan Mr Mower yn y 1950'au.

Byddem yn cael gwersi darllen, Mathemateg ac iaith ond hefyd cawson gyfle i ddysgu am hanes Cymru, byd natur, caneuon gwerin, cerdd dant, dawnsio gwerin, chwarae recorder a chanu'r delyn. Mrs Hutt o Donyrefail oedd yr athrawes delyn. Roedd hi'n fenyw smart, ac roedd yn gwisgo dillad chwaethus, yn cynnwys het a arhosai ar ei phen yn ystod gwersi.

Dwi'n cofio trip ysgol gyntaf Pont Sion Norton i Langynwyd i weld bedd Wil Hopcyn ar ôl clywed stori'r ferch o gefn Ydfa, a chael gweld y Fari Lwyd, chael ymweld â chrochendy Ewenni, ac wrth gwrs, y cyngerdd cyntaf yn neuadd y gweithwyr Cilfynydd.

Des i nôl i'r ysgol fel athrawes yn 1966 gyda Mrs Treharne yn Brifathrawes a Mrs Todd yn athrawes. Daeth Mrs Alona Rees atom ymhen ychydig a Martin ei mab ieuengaf yn ddwyflwydd oed. Roedd e'n gorgeous bryd hynny yn gywir fel mae e heddiw. Aeth yr ysgol o neth i nerth hyd nes inni lenwi yr adeilad, ac fe ddaeth Mrs Todd yn brifathrawes, a finne ar ei hol hi, gyda 320 o blant yn yr ysgol pan orffennais i. Yr uchafbwyntiau imi oedd paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, a chael tipyn o lwyddiant. Paratoi a perfformio sioeau fel Joseff, Oliver, Scrooge, a'r plant yn gwneud eu gwaith yn wych.

Ond y sioe sy'n aros fwyaf ar y cof yw y Panto wnaeth yr athrawon i'r plant. Roedd y sgript gan Mrs Glenys Evans, Mrs Todd wrth y piano, Delyth Jones oedd y tywysog, Nerys Snowball oedd Sinderela. Fi oedd y dylwythen deg a'r arwr oedd Jayne Rees fel Superted. Ond y sêr oedd y tair chwaer hyll, Gwenllian Jenkins, Elwyn Hughes a Cliff Jones, y tair wedi eu gwisgo yn fendigedig mewn dillad fenthycwyd gan Cliff wrth rai o'r morwynion oedd yn gweini yn y wledd ganoloesol yng Nghastell Caerdydd. Braf cofio yr hwyl gawson ni wrth ymarfer.

A thrwy gydol fy nghysylltiad gyda PSN dwi wedi ymfalchïo yn y ffaith bod cymaint o blant yr ysgol wedi cael cryn lwyddiant mewn cymaint o wahanol feysydd, yng Nghymru, Prydain a rhannau eraill o'r byd, a'r nifer sydd wedi llwyddo cadw eu hiaith, ble bynnag y bont.

Fel y gellwch ddeall, dwi'n teimlo yn drist iawn fod PSN yn cau ac yn symud i adeilad tu allan i ddalgylch gwreiddiol yr ysgol, ar ôl 73 mlynedd.

Parhad tudalen 13 >

## Atgofion Ysgol Pont Siôn Norton (Parhad)


Llwyddiant yn Rownd Derfynol Cwis Llyfrau 1990

Ond dwi'n gobeithio a gweddïo y bydd yr ysgol newydd yn mynd o nerth i nerth ac yn adeiladu ar y seiliau a osodwyd yn PSN, ac y bydd rhieni Ynysybwl, Glyncoch a Cilfynydd a'r dre yn cefnogi'r ysgol newydd ac y bydd pawb yn cofio arwyddair a roddodd Mrs Netherway ar fathodyn PSN - Eu hiaith a gadwant.

**Miss Heledd Stephens**
Mae cau Ysgol Pont Siôn Norton yn ddiwedd cyfnod arbennig iawn! Dathlwn a chofiwn 73 mlynedd ein hysgol gyfeillgar a hapus, a'r tri adeilad hardd ar lethr y mynydd. Cofiwn y brwydro a fu i sefydlu'r Ysgol yn 1951, a'r brwydro eto yn y 1980'au i sicrhau twf addysg Gymraeg yn yr ardal, a'r brwydro diweddar i gadw addysg Gymraeg ym mhen uchaf y cwm. Mae'n diolch yn fawr i Ffrindiau Pont Siôn Norton am eu holl gefnogaeth a'r gwaith diflino dros y blynyddoedd yn codi arian i'n galluogi i gynnig profiadau hyfryd i'n disgyblion. Ffrindiau - rydych chi werth y byd i gyd. Mae wedi bod yn fraint cael arwain yr ysgol dros y 5 mlynedd diwethaf, gyda chefnogaeth y Staff a'r Llywodraethwyr ymroddedig - diolch i chi gyd am eich gwaith caled, ac i'n cymuned glos a chefnogol o Rieni brwdfrydig a disgyblion bendigedig. Mae'n drist i weld yr ysgol yn cau ond gallwn fod yn falch o berthyn i deulu Pont Siôn Norton gydag atgofion i'w trysori.

**Aled Edwards**
**Cadeirydd y Corff Llywodraethol**
Braint o'r mwyaf yw cael diolch i holl staff Ysgol Pont Siôn Norton dros y blynyddoedd. Diolch am eich gwaith a'ch cyfraniad unigryw i addysg Gymraeg. Fe wnaf hynny ar ran holl lywodraethwyr yr ysgol dros y blynyddoedd. Diolchaf hefyd i'r holl gyn ddisgyblion a'n Rhieni, cawsom gyfle i hel atgofion ac i ddathlu ein hetifeddiaeth unigryw.

Cefais gyfle yn ystod y tymor olaf hwn i ddirnad o'r newydd aberth y frwydr a gafwyd i sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg Ysgol Pont Siôn Norton yn 1951. Ers hynny, cafwyd llu o frwydrau eraill i ymestyn darpariaeth yr ysgol. Erbyn hyn, gallwn amcangyfrif bod o ddeutu traean o'n disgyblion yn dod o gartrefi sy'n arddel y Gymraeg. Gallwn hefyd ddathlu bod bron 5% o'n disgyblion yn dod o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Fe dyfodd addysg Gymraeg yn y modd mwyaf rhyfeddol dros y degawdau. Cafodd ein hysgol ddylanwad mawr ar y fro.

Cefais y fraint o fod yn gysylltiedig â'r ysgol am o ddeutu deunaw mlynedd. Bu cael gwasanaethu'r ysgol yn un o freintiau pennaf fy mywyd. Pleser o'r mwyaf oedd cael cydweithio gyda thîm rhagorol ein llywodraethwyr. Hyfryd o beth yw cael cyfarfod erbyn hyn â llu o gyn ddisgyblion sydd wedi elwa o fod yn yr ysgol. Pobl ifanc rhyfeddol ein bro sy'n defnyddio'r Gymraeg mewn amryw sefyllfaoedd. Eu dathlu nhw rydym yn ei wneud yn bennaf.

Ni fu'r profiad o ddirwyn yr ysgol i ben o hyd yn rhwydd. Erys pryderon ynghylch dyfodol addysg Gymraeg mewn rhannau o'n dalgylch a bydd rhaid sicrhau ethos Gymraeg Ysgol Awel Taf. Nid yw'r frwydr dros addysg Gymraeg drosodd yn ein bro. Mae brwydrau eraill yn ein disgwyl.

Gallwn edrych ymlaen at adeilad modern fydd yn sicr o gynnig adnoddau gwell i'n disgyblion. Maen nhw yn haeddu gwell. Diolch am eich cefnogaeth dros y blynyddoedd. Ymlaen a ni!






Teithiau amrywiol dros y blynyddoedd



**Cân yr ysgol**
O dewch am dro i'n hysgol nawr
Mor annwyl ydyw hi
Cans ynddi mae ein doniau mawr
A'n plant bach hoffus ni.

Mae yma blant sy'n Gymry gwir
Yn caru'r iaith a'i gwlad
Yn cofio am ei chewri gynt
Hen arwyr Cymru fad.

Ym Mhont Siôn Norton fyddwn blant
Yn selog dros ein bro
A'r hanes hoff am Ddewi Sant
Yn gadarn yn ein cof.

Clodforwn, clodforwn ein hysgol hapus ydyw hi,
Clodforwn, clodforwn ein hysgol hoffus ni.

**Cân y Dathlu**
Mae'r ysgol nawr yn cau
Y drysau a'r giatiau ar glo
Y gloch sydd yn fud
Daeth tro ar ein byd
Ond diolch yn awr yw ein cân

Mae plant y cwm i gyd
Yn diolch am ofal o hyd
Fe ddaw'n hamser i ben
Ac fe dynnwn y llen
A diolch yn awr yw ein cân!

Eu hiaith a gadwant hwy
Dros y degawdau a mwy
Y Gymraeg yn ein clyw
Fe'i cadwn hi'n fyw
O bydded i'r heniaith barhau.

Cytgan:
Dewch i ganu oll yn llon
Gydag Ysgol Pont Sion Norton
Dyma'r amser i ddathlu - a diolch amdani
Ein dyled i'r ysgol sydd yn fawr!

# PONTYPRIDD

**Gohebydd y mis: Jayne Rees**

**Arddangosfa Arbennig**
Ar ôl eu cyflwyno yn y Guildhall Llantrisant bellach mae'r goron a'r gadair i'w gweld lan llofft yn Llyfrgell Pontypridd. Mae'n werth galw heibio i'w gweld a'r arddangosfa sy'n cyd-fynd â nhw.

**Yr Albion**
Buodd wythnos o weithgareddau yng Nghilfynydd i gofio 130 mlynedd ers y trychineb ym Mhwll Glo Yr Albion. Cafwyd seremoni arbennig i ddadorchuddio y dram newydd er cof am y 290 o fechgyn a dynion a gollodd eu bywydau.



**Merched y Wawr**
Diolch i'r aelodau am gwblhau Menter Mai gan gyflawni nifer o heriau amrywiol dyddiol bob dydd am y mis. Codwyd swm sylweddol at Apêl Ardal Pontypridd. Byddwn yn gorffen y tymor drwy ymweld â gardd Waun Wyllt yn Creigiau.

Nid dyma ddiwedd gweithgareddau'r gangen eleni wrth i wythnos yr Eisteddfod agosáu. Mae'r trydydd gweithdy crefft gyda Becky Davies fore Sadwrn Gorff 20fed am 10.00a.m. er mwyn cwblhau'r trefniadau i addurno pabell Merched y Wawr ar y Maes. Mae pawb yn edrych ymlaen at yr holl weithgareddau gan Ferched y Wawr ar y Maes yn enwedig cyflwyno'r prosiect 'Gwlad Newydd y Merched'. Diolch o galon i'n Trefnydd Rhanbarthol Jên Dafis am ei gwaith yn cydlynu i drefnu'r holl ddigwyddiadau.

**Pwyllgor Apêl Ardal Pontypridd**
Diolchiadau a llongyfarchion ar ymdrechion grŵp bach hynod o weithgar dros y 10 mis diwethaf. Mae cyffro mawr yn y dre bellach wrth i'r wythnos brysur agosáu. Maent wedi cychwyn ar y gwaith o osod y maes ym Mharc Ynysangharad. Fe fydd cyfle ym mis Medi i bawb i ddod at ei gilydd yng Nghlwb y Bont i ddathlu eu llwyddiant.

Hoffai'r Pwyllgor estyn eu cydymdeimlad i Aled Wyn Philips, Caerdydd a'r teulu a gollodd ei wraig Meinir yn ddiweddar.

**Clwb Llyfrau**
Dewch i drafod eich cyfrolau diweddar yn Llyfrgell Pontypridd fore Mercher Gorffennaf 17eg am 10.30a.m.

**Brwdfrydedd**
Roedd hi'n braf iawn ymweld ag un o ysgolion di Gymraeg yr ardal i roi sbardun i'w prosiect hanner tymor sef yr Eisteddfod Genedlaethol. Buodd yr ysgol gyfan yn gwrando'n astud yn ei gwasanaeth boreol ar ychydig o hanes a ffeithiau diddorol am yr eisteddfod gan un o aelodau'r pwyllgor apêl lleol. Fe gynhaliodd Ysgol Gynradd Coedylan 'Fwrdd yr Eisteddfod' yn eu Ffair Haf gan ddosbarthu sticeri a thaflenni gwybodaeth i'r plant a'u rhieni yn ogystal â gwerthu tocynnau raffl!
Llongyfarchiadau!

**Dymuniadau gorau**
Croeso i ddau Gymro bach newydd.
Ganwyd Iori Mostyn Mills yn fab cyntaf i Lara Catrin a Johnny, Maesycoed.
Fe ddaeth Ollie i'r byd gyda help ei dad yn fydwraig! Newyddion ardderchog i Thomas Frowen a'i bartner Emily, Graigwen. Brawd i Nel. Mae tad-cu a mamgu Priory Close wrth eu bodd.

**Cydymdeimlo**
Ym mis Mehefin bu farw Mrs Hilary Davies, Priory Close, gynt o Ynysybwl, ar ôl bod yn dost ac yn gaeth i'w chartref ers nifer o flynyddoedd. Rydym yn meddwl am Gill Frowen a'r teulu yn eu colled.

**Sêr Gwyddbwyll**
Mae Wiliam a Tomos Francis o Flaendulais, sef wyrion Mags a Dave Francis, Graigwen, wrth eu boddau yn chwarae gwyddbwyll. Maent yn aelodau selog o Glwb Gwyddbwyll Castell Nedd. Tair wythnos yn ôl roedd y ddau yn cynrychioli De Ddwyrain Cymru yng nghystadleuaeth Delancey ym Mryste.





Llwyddodd y ddau i gyrraedd rownd derfynol 'Gigyfinals' y tair gwlad yng Nghaeredin penwythnos diwethaf. Gwnaeth y ddau yn dda iawn gan fwynhau'r profiad o chwarae yn erbyn unigolion profiadol iawn.

Pob lwc i bawb o'r ardal sy'n cystadlu ac yn cyfrannu yn ystod yr Eisteddfod.

Gohebydd mis Medi fydd Dilys Davies. Cysylltwch â hi gyda'ch newyddion.

## Ysgol Pont-Siôn-Norton

**Cydweithio Cerdd**
Diolch yn fawr iawn i Elinor Wyn Reynolds am ddod i weithio gyda chriw o blant o ysgolion y clwstwr, i greu cerdd o groeso i Gymru gyfan i Eisteddfod Rhondda-Cynon-Taf. Rydym yn edrych ymlaen at ei chlywed!



**Coron a Chadair**
Braint oedd cael cerdded lawr i Lyfrgell Pontypridd i weld Coron a Chadair Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024. Bu Hywel yn adrodd yr hanes ac roedd cyfle i astudio hen luniau. Yna cafwyd bach o hwyl yn y parc!

**Llangrannog**
Cafwyd penwythnos gwych yn Llangrannog yn cyflawni gweithgareddau bendigedig gyda ffrindiau o'r clwstwr. Diolch enfawr i'r staff ddaeth i gynorthwyo.




**Rygbi**
Rydym ni'n falch iawn o'n criw rygbi 7 bob ochr Blwyddyn 6 bu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Ysgolion Pontypridd. Fe wnaeth pob un ohonoch yn wych!



**Bore coffi Dathlu a Chofio PSN**
Diolch i'n holl gyn-ddisgyblion, staff, rhieni a ffrindiau a ddaeth i'n bore coffi i weld yr ysgol am y tro olaf. Roedd yn emosiynol iawn.

# O DAN YR WYNEB

## Cyril Jones sy'n holi Martin Huws am ei gyfrol gynta o farddoniaeth, *Dyn ar Dân*.



**Beth yw dy waith?**
Wedi ymddeol o BBC Cymru ers wyth mlynedd ond yn sgrifennu a newyddiadura o hyd.

**Pa waith arall wyt ti'n wneud neu wedi ei wneud?**
Rwy'n cofio shipsi, oedd yn gwerthu pegs, yn dweud wrth Mam ar garreg y drws pan o'n i tua deg oed: 'Mae'r mab hyna'n mynd i hala amser cyn setlo lawr.' Gwir y gair. Ro'n i'n ofalwr shifft, yn weithiwr dur ac yn swyddog clerigol cyn setlo lawr. A bod yn onest, ro'dd rhain yn help achos dysges i sut i ddelio â phob math o bobol. Wedyn newyddiadura i *Golwg*, *Western Mail*, *Y Byd ar Bedwar*, *Week In Week Out* a *Cymru Fyw*.

**O ble wyt ti'n dod?**
Yn wreiddiol o Gaerdydd. Mam o Felinfoel a Dad o dre Llanelli.

**Ble wyt ti'n byw?**
Wedi byw yn Ffynnon Taf ers mwy na deg mlynedd ar hugain.

**Wnest ti fwynhau dy addysg?**
Roedd naws ysgol fonedd yn Ysgol Uwchradd Cathays ond ambell i elfen Gymra'g, er enghraifft cyfle i actio yn nramâu Eic Davies yn y Noson Gymra'g bob blwyddyn. Yr athro gwaith coed, Caron Jones, tad Carwyn Jones, oedd y cyfarwyddwr.

Yn y chweched dosbarth ro'n i'n lwcus i ga'l dau athro ysbrydoledig, Elvet Thomas (Cymra'g) a Ted Poole (Ffrangeg).

Ffaeles i arholiadau'r flwyddyn gynta yn Aber yn 1970 ond es i nôl i'r brifysgol yn ddiweddarach. Rwy'n cofio aelod o bwyllgor *Y Dinesydd* yn edrych yn syn pan atebais i ddau gwestiwn. 'Pryd sefoch chi arholiadau Lefel A?' '1969.' 'Pryd graddioch chi?' '1978.' Dyfal donc ...

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnat ti?**
Ro'dd Mam yn hoff iawn o ddarllen nofelau, weithiau tan oriau mân y bore. Y papur newydd roedd Dad yn ei ddarllen, un asgell dde, y *Daily Express*.

Y beirdd Cymraeg sy wedi dylanwadu arna i yw Sion Eirian, Iwan Llwyd, Bryan Martin Davies a Dafydd Rowlands. Weithiau mae ymadrodd neu linell yn eu cerddi yn fan cychwyn cerdd newydd.

Rwy'n ddiolchgar i'r Prifeirdd Rhys Iorwerth, Gruffudd Eifion Owen, Llyr Gwyn Lewis, ac Emyr Davies am eu gwersi cynganeddu yn Chapter a llefydd eraill, i Cyril Jones am eu ysbrydolieth ac i bob beirniad Eisteddfodol am eu sylwadau caredig a llym.

Rwy'n hoff o waith yr Americanwr Charles Wright, y Gwyddel Dennis O' Driscoll a'r Albanwr Don Paterson. Yn Saesneg rwy'n hoffi gwaith Edward Thomas, Sylvia Plath, Ted Hughes a Kathleen Jamie.

**Pa gyfrolau eraill wyt ti wedi cyhoeddi?**
Dwy gyfrol o straeon byrion, *Sgrech Rhyfel*, ac *Yr Awyr yn Troi'n Inc* (rhai'n galw'r ola'n gerddi prôs). Dwy nofel, *Dim Niwed* a *Mae Heddwch yn Brifo* a dwy ymson gyferbyniol yn y *Cyfansoddiadau*. Llyfryn dwyieithog am hanes y brifddinas, *Cyfres Cip ar Gymru/Caerdydd*.

**O ble daeth y syniad cyn sgrifennu'r gyfrol?**
Wnes i ddechrau barddoni o ddifri yn 2016 pan enillais i Gadair Gŵyl Fawr Aberteifi a'r Goron yn Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen yn Llambed.

Ers hynny, mae cerddi wedi ennill mewn eisteddfodau mawr a bach a rhain yw hanner y gyfrol. Y gweddill yn fras yw cerddi coffa, cerddi am y Cymoedd a cherddi am Gaerdydd.

**Beth yw arwyddocâd y teitl?**
Un o ddywediadau'r bardd o Ganada, Anne Carson: 'Os taw tŷ yw rhyddiaith, barddoniaeth yw dyn ar dân yn rhedeg trwyddo.' Teitl sy'n dala sylw ac ennyn chwilfrydedd, gobeithio, a llun fy merch, Carys, ar y clawr yn ei gryfhau. Wel, dyna'r nod.

**Beth sy'n gwneud cerdd dda?**
Mae cerddi gwahanol yn dda am wahanol resymau. Felly mae'n gwestiwn anodd ei ateb. Mae cerdd dda yn hala chi i feddwl, yn cyffwrdd rhyw deimlad cyfarwydd. Y rhai gore'n hala cryd lawr y cefen.


**Beth sy'n well, y wers rydd neu'r gynghanedd?**
'Rwy'n hoff iawn o'r wers rydd, yn enwedig yr ymson dramatig. Darllenais i waith Carol Ann Duffy a Glyn Maxwell a sylweddoli bod modd anelu at ddod yn nes at y gwirionedd drwy wisgo masg, hynny yw esgus bod yn gymeriad arall.

Mae golygydd y wasg, Gerwyn Wiliams, wedi dweud: 'Yn fy marn i, mae cerddi'r wers rydd yn rhoi llwyfan i rythmau sgyrsiol a mynegiant llafar y mae defnydd llwyddiannus o dafodiaith yn eu grymuso. Mae'r cerddi gorau'n arddangos sylwgarch y newyddiadurwr ac ymwybod yr undebwr â chyfiawnder cymdeithasol.' Weithiau mae angen pâr arall o lyged i edrych ar y gwaith.

**Beth oedd proses cynllunio'r casgliad?**
Ar y cychwyn, roedd gormod o gerddi. Felly ro'n i'n gorfod tynnu'r 25,000 o eiriau'n nes at 10,000**.**

Y cam nesa oedd gwrando ar awgrymiadau Gerwyn yn y wasg a Huw Meirion**,** ymgynghorydd y Cyngor Llyfrau, a mireinio wrth anelu at greu 'cyfrol gydlynus a chroesgyfeiriadol'.
Y darllenydd fydd yn penderfynu. Ar y cyfan, roedd y cydweithio'n rhwydd.

**Oes rwtîn sgrifennu?**
O's, o leia ddwy awr yn y bore, fel arfer rhwng 11 ac 1 cyn ymlacio yn y prynhawn. Os o's dyddiad cau, mwy o oriau. Patrwm yn bwysig, sgrifennu fel cyhyr.




**Pa gyngor fyddet ti'n rhoi i fardd ifanc?**
Darllena, yn enwedig cerddi lle mae'r lleisiau'n debyg i dy rai di. Doda rywbeth ar bapur. Mae'r drafft cynta wastod yn siomedig. Wedyn golygu. Fel dywedodd Beckett: 'Ffaelwch yn well.'

**Beth oedd y cyngor gorau gest ti?**
Yr athro Ffrangeg yn yr ysgol ramadeg, Ted Poole. 'Bydd yn driw i dy hunan.'

**Sut mae poblogeiddio barddoniaeth?**
Bob mis mae beirdd Ponty'n adrodd eu cerddi Saesneg a Chymraeg yn adeilad YMA yn y dre. Pan wy'n pipo trw'r ffenest ac yn gweld pob math o bobol yn mynd heibio, yn hen ac yn ifanc, yn sobor ac yn feddw, wy'n gofyn yr un cwestiwn.

Un awgrym, tipyn o her, denu diddordeb bechgyn yn yr ysgol fach a mawr.



Martin Huws yn fyw yn Nhreorci

**Sut oedd y profiad o gydweithio â Carys?**
Mae'r bardd John Fuller a'r ffotograffydd David Hurn wedi cyhoeddi cyfrol o'r enw *Writing the Picture*. Ar un adeg, roeddwn i'n meddwl y byddai'n well 'sen ni'n dilyn yr un drefen, Carys yn tynnu lluniau a finnau'n ymateb. Ond fel arall oedd hi a Carys, er enghraifft, yn gofyn beth oedd yn mynd trwy'n feddwl i wrth sgrifennu cerdd.

Gobeithio bod y lluniau'n cyfoethogi'r cerddi a'r cerddi'n cyfoethogi'r lluniau.

**Beth sy'n dy wylltio?**
Anghyfiawnder o unrhyw fath. Ecsbloetio pobol.

**Beth sy ar y gweill?**
Nofel, cyfrol llên micro, drama, gobeithio.

**Disgrifia dy hoff bryd bwyd**
Cyrri, yn enwedig corgimwch neu ffowlyn korai. Gyda reis a sglodion. Hen arfer ddinesig.

**Beth yw dy hoff weithgareddau amser hamdden?**
Cerdded, gwylio ffilmiau, gwrando ar gerddoriaeth blŵs a jazz, darllen nofelau.

**Dolen Gwales: https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781913996994&tsid=2#top**
***Dyn ar Dân*, Gwasg y Bwthyn, £9.50**

# Ysgol Llanhari

**Mabolgampau**
Cafwyd diwrnod arbennig yn yr heulwen gyda mabolgampau yr adran gynradd. Roedd hi'n ddiwrnod prysur ond roedd pawb wedi mwynhau a phob un wedi trio'u gorau glas. Da iawn i bob un a llongyfarchiadau i lys Aran am fod yn fuddugol.








**Bore o hwyl Meithrin**
Cynhaliwyd bore o hwyl ar gyfer y disgyblion fydd yn ymuno gyda ni yn Ysgol Llanhari yn y meithrin ym mis Medi. Roedd hi'n gyfle arbennig i'r disgyblion a'r rhieni ymweld â'r dosbarth ac i gyfarfod yr athrawon. Roedd llawer o chwerthin i'w glywed yn dod o ddosbarth Dewi Draenog. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi cyn hir.





**Ymweliad rhieni**
Croesawyd rhieni'r adran gynradd i mewn i'r dosbarthiadau fel bod y plant yn gallu dangos pa fath o waith maent wedi gwneud. Roedd y bwrlwm oedd yn yr adran gynradd yn amlwg ar y diwrnod gyda'r disgyblion yn gwenu o glust i glust wrth ddangos yr holl waith maent yn falch iawn ohono i'w rhieni. Diolch i bawb am gefnogi.

**Prynhawn coffi Bl. 6**
Cafwyd amser hyfryd yn neuadd yr ysgol gyda disgyblion o flwyddyn 5 a 6 wedi paratoi prynhawn coffi er mwyn codi arian ar gyfer Eisteddfod RhCT. Roeddent wedi bod wrthi drwy'r dydd yn coginio pob math o gacennau blasus! Perfformiodd côr yr adran gynradd a chafwyd perfformiadau offerynnol gan unigolion yn ogystal a gem fach o bingo! Ymdrech wych gan bawb!

**Kerbcraft**
Diolch i Matt o Kerbcraft am ddysgu disgyblion o flwyddyn 2 sut i groesi'r ffordd yn ofalus. Mae'r disgyblion wedi bod yn mwynhau mynd am dro i flaen yr ysgol yn eu siacedi llachar melyn i ymarfer eu sgiliau newydd.



**Taith i Ffair Wyddonol Big Bang**
Aeth disgyblion blwyddyn 6 a 7 yr holl ffordd i Birmingham ar gyfer ffair STEM 'Big Bang'. Roeddent wedi mwynhau mas draw yn crwydro'r stondinau ac yn arbrofi gyda gwahanol adnoddau e.e. peniau 3D.



# Mwrdwr ar y Maes

Caëwch y drysau yn y cefn a phob chwara teg! Mae Sioe Glwb ddiweddaraf Bara Caws ar fin cychwyn...MWRDWR AR Y MAES...gan Iwan Charles a Llyr Evans.

Ar yr wyneb mae Eisteddfod Aberbronfraith wedi bod yn led wyddiannus, a lot o focus wedi eu ticio. Y Goron, y Fedal Ryddiaith a Gwobr Daniel Owen wedi'u hennill, a'r gobaith rwan ydi y bydd Bardd Traws, naci dim Hedd Wyn, yn ennill y Gadair. Tic, tic, tic.

A thic enfawr i'r Eisteddfod am fod mor gynhwysfawr, arwydd clir eu bônt yn symud gyda'r oes. Nid Eisteddfod i'r dosbarth canol fydd hi mwyach, ond 'steddfod i bawb, y di-gartref, y di-waith ar di-dalent... Ond bu mwrdwr, ac os bu mwrdwr, ma' rhaid bod mwrdwrwrwrwr...ar y maes, ond pwy?

Felly, dewch yn llu (os meiddiwch chi!) i helpu Hank a Shandy (o Rhyl) a nifer o gymeriadau lliwgar eraill i ddatrys y dirgelwch.

Mae'n addo bod yn noson werth chweil, felly mynnwch eich tocynnau a dewch 'ch ffrindiau hefo chi!

18+

Mwrdwr Ar y Maes, Clwb Duffy's, Maesycoed. (Uwchben Maes Rygbi Heol Sardis). Dydd Sul - dydd Iau 4 - 8 Awst 2024.

**Teithiau'r Adran Uwchradd**
Mae disgyblion yr adran uwchradd wedi mwynhau'r awyr iach yn ddiweddar ar eu teithiau. Cafwyd ddiwrnod a thywydd arbennig ar gyfer diwrnod Gwobr Dug Caeredin yn ddiweddar ac yna mynydda yn Eryri.





# Ysgol Creigiau

**Eisteddfod yr Urdd**

Ddydd Mawrth a dydd Mercher yn ystod hanner tymor, cystadlodd nifer o ddisgyblion yr ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod, Maldwyn. Perfformiodd pob un yn wych. Roedd Gracie, Class 5, yn ail ar y Llefaru Blwyddyn 5 a 6 i ddysgwyr, daeth y Grŵp Perfformiad Theatrig i Ddysgwyr yn ail hefyd. Perfformiodd Tina, Class 2, Yaya, Class 3, a'r Grŵp Llefaru i Ddysgwyr yn wych yn eu cystadlaethau. Rydym yn hynod falch o'r holl ddisgyblion a fu'n cystadlu ac yn cynrychioli'r ysgol mor wych. Diolch i'r staff a fu'n hyfforddi'r disgyblion a diolch o galon i'r holl rieni a theuluoedd am eu cefnogaeth.



Gracie yn ennill yr ail wobr am lefaru i ddysgwyr




Caitlyn, Gracie a Bethan yn ail yn yr ymgom i ddysgwyr

**Llysgenhadon Nwy Cymru a'r Gorllewin**

Ymwelodd Nicole a Paisley, Llysgenhadon Nwy Cymru a'r Gorllewin, â'r ysgol i addysgu disgyblion Blwyddyn 3 i 6 am beryglon nwy Carbon Monocsid (CO). Dysgon nhw beth yw Carbon Monocsid, beth yw symptomau gwenwyn CO a sut i gadw'n ddiogel. Mwynheuodd y disgyblion y cyflwyniad a dysgon nhw wersi pwysig.



**Rosie Eccles**

Buon ni'n ffodus iawn i gael Rosie Eccles yn ymweld â'r ysgol. Mae Rosie yn focsiwr amatur sydd wedi ennill lle yn y tîm bocsio Olympaidd. Bydd hi'n cystadlu ym Mharis yn yr haf. Bu disgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6 yn gwrando'n astud ar ei stori ysbrydoledig ac yn gofyn llawer o gwestiynau synhwyrol. Roedd disgyblion Blwyddyn 6 hefyd yn ffodus i gymryd rhan mewn sesiwn sbario gyda Rosie. POB LWC ym Mharis, Rosie!



**Swyddog Ieuenctid yr Urdd**

Daeth Siwan Mason, Swyddog Ieuenctid yr Urdd, i wneud gwaith pontio gyda disgyblion Dosbarth 6. Clywodd y disgyblion am yr amrywiol gyfleoedd mae'r Urdd yn cynnig iddynt ac am glybiau'r Urdd a fydd ar gael iddynt ym Mhlasmawr. Cawsant hefyd gyfle i chwarae nifer o gemau hwyliog. Diolch Siwan am ddod i'n gweld.

**Ffermdai Creigiau**

Y tymor hwn mae pob dosbarth wedi bod yn astudio eu hardal leol. Aeth disgyblion Dosbarth 5 i ymweld â Ffermdy Castell-y-Mynach a Ffermdy Creigiau i edrych ar adeiladau hŷn yn y pentref. Diolch yn fawr i Mr Andrews yn Ffermdy Creigiau am groesawu Dosbarth 5 i'w gartref.



**Recordio Negeseuon Pwysig**

Daeth Mark Smith, Uwch Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i'r ysgol i recordio dau ddisgybl Blwyddyn 6 yn darllen negeseuon pwysig i annog pobl i beidio ag ysmygu ar dir ysbytai. Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r broblem hon, mae uchelseinyddion wedi'u gosod mewn pedwar lleoliad gwahanol ar draws Bwrdd




Ela a Rua yn recordio negeseuon pwysig i'r GIG

Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Recordiodd Ela, Dosbarth 6, a Rua, Class 6, bedair neges bwysig a fydd yn cael eu chwarae y tu allan i'r uned famolaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Gwaith gwych Ela a Rua - da iawn chi'ch dau. Diolch i Mark am roi'r cyfle hwn iddyn nhw.

**Stwnsh Sadwrn**

Ymddangosodd chwech o ddisgyblion Dosbarth 6 ar Stwnsh Sadwrn yn ddiweddar. Cymerodd Ffion, Hedd, Joshua, Mari, Dafydd ac Elis ran mewn amrywiaeth o gemau hwyliog. Y tîm gwyrdd oedd yn fuddugol a arweiniodd at y tîm glas yn cael eu gorchuddio â llysnafedd! Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr.



**Criced**

Y tymor hwn bu Brad Wadlam, Criced Cymru, yn ymweld i gyflwyno pedwar sesiwn criced i ddisgyblion Blwyddyn 3, 4 a 5. Cawsant amser gwych yn dysgu sgiliau newydd.

**Gwasanaeth Diogelwch Dŵr**

Cymerodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ran mewn gwasanaeth Diogelwch Dŵr dan arweiniad Tîm y Ganolfan Hamdden. Dysgodd pawb negeseuon pwysig.



**Cwrs Cymorth Cyntaf ac Iaith Arwyddo**

Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn ffodus iawn i gael Cwrs Cymorth Cyntaf. Cawsant gyfle hefyd i gymryd rhan mewn sesiynau Iaith Arwyddo.

Parhad tudalen 19 >

# Ysgol Garth Olwg

**Twrnamaint merched NBA 2024**

Aeth criw o ferched blwyddyn 8; Niamh Scofield, Freya Coles, Carys Hopkins, Arabella Hughes, Ria Thomas, Halle-Mae Humphreys a Cari-Rose Lloyd draw i Aberystwyth i gynrychioli'r ysgol yn nhwrnamaint merched NBA 2024. Mae'n rhaid canmol y merched am weithio a pherfformio yn wych gan lwyddo i ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth. Cafodd y merched crysau pêl fasged newydd am gymryd rhan. Arbennig, da iawn chi!





**Cyn ddisgyblion yr ysgol**

Llongyfarchiadau enfawr i bedwar cyn disgybl; Ioan Emanuel, Steff Emanuel, Owen Conquer a Harri Wilde am gael eu dewis i gynrychioli Cymru yn y garfan Cymru Dan 20. Rydym ni fel ysgol yn falch iawn o'ch llwyddiant. Da iawn chi a phob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal, llongyfarchiadau enfawr i Owen Conquer ac Owain James sydd wedi cytuno cytundebau proffesiynol gyda'r Dreigiau. Arbennig, da iawn chi.




**Cystadlaethau athletau**

Roedd y 19eg o Fehefin yn ddiwrnod llwyddiannus iawn i ddisgyblion yr ysgol yng nghystadleuaeth athletau Cymoedd Morgannwg. Aeth pedwar tîm i gystadlu a phob un o'r pedwar tîm yn llwyddo i fynd ymlaen i'r rowndiau terfynol. Roedd perfformiadau pawb o safon uchel iawn a llwyddodd bawb i ennill pwyntiau i'w timau gan sicrhau pedwar buddugoliaeth i'r pedwar tîm. Pob lwc i bawb yn y rowndiau nesaf!



**Taith Oakwood**

Roedd disgyblion blynyddoedd 7 i 10 wedi cael diwrnod i'r brenin ar ddydd Mawrth y 25ain o Fehefin gan eu bod wedi bod ar daith i barc thema Oakwood. Taith oedd hi i wobrwyo blwyddyn am eu gwaith caled, presenoldeb uchel ac agwedd gadarnhaol at ddysgu. Roedd y disgyblion wedi cael modd i fyw ar y reidiau gan gynnwys Megafobia a Speed. Roedd rhai wedi mwynhau diwrnod mwy araf gan wibio trwy'r coed ar Treetops ac ymlacio ar y cychod ar y llyn. Cyn dychwelyd ar y bysiau roedd nifer wedi mwynhau hufen iâ blasus gan iddi fod yn ddiwrnod poeth iawn. Roedd y daith yn wych a diolch i bawb am drefnu!







**Diwrnod Balchder**

Roedd Fforwm Cydraddoldeb yr ysgol yn awyddus iawn i ddathlu mis Balchder. Roedd y Fforwm wedi bod yn brysur iawn yn creu cynnyrch yr enfys gan gynnwys clipiau gwallt a breichledi i werthu. Yn ogystal, cynhaliwyd wasanaethau er mwyn codi ymwybyddiaeth a diwrnod Balchder yn yr ysgol.



Roedd yr Ysgol gyfan wedi gwisgo mewn dillad lliwgar a gwerthu cynnyrch lliwgar i gefnogi'r diwrnod! Cyfle gwych i ddathlu Balchder! Diolch i'r fforwm am weithio mor galed!

Yn ogystal â hynny, llongyfarchiadau i Lleucu, Gwenno, Beca a Caiden am ennill y gystadleuaeth cynllun bathodyn. Roedd y bathodynnau ar gael i brynu ar stondin y fforwm ar ddiwrnod balchder. Da iawn chi!





**Cystadleuaeth Book Slam**

Llongyfarchiadau enfawr i ddisgyblion yr ysgol ganol am ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth y 'Book Slam'. Cafodd y disgyblion nifer o gyfleoedd ar y diwrnod a oedd y hynod o fuddiol ac rydym ni fel ysgol yn edrych ymlaen at weld beth arall sydd gan y disgyblion i'w cynnig.



Parhad tudalen 19 >

## Ysgol Creigiau (Parhad)

Roedd pob un wedi dysgu sgiliau newydd ac wedi mwynhau'r profiadau'n fawr.



Blwyddyn 6 yn dysgu Iaith Arwyddo

**Cystadleuaeth Carnifal Creigiau**
Mae pob disgybl wedi cael y cyfle i ddylunio poster i hysbysebu Carnifal Creigiau. Y thema eleni yw Sioeau Cerdd. Mae'r gwaith celf hyfryd wedi eu harddangos o gwmpas y pentref – gwych blantos!



Enillwyr Cystadleuaeth Carnifal Creigiau

**Sioe Ddawns**
Nos Iau, 20fed Mehefin, fe berfformiodd 30 aelod o'n clwb Dawnsio Disgo mewn Sioe Ddawns yn y Tramshed yng Nghaerdydd. Perfformiodd criw Blwyddyn 6, y garfan a'r tîm llawn yn wych ac roedd ymateb y gynulleidfa'n profi bod pawb wedi mwynhau y perfformiadau'n fawr. Gwych ferched! Diolch i Mrs Tewkesbury, Mrs Long a Miss Jones am eu hyfforddi a diolch i'r rhieni a'u teuluoedd am gefnogi.

**Twrnamaint Criced**
Aeth dau dîm criced o Flwyddyn 4 i gystadlu yn Nhwrnamaint yr Urdd a gynhaliwyd ar Faes Criced Caerdydd, Yr Eglwys Newydd. Chwaraeon nhw i gyd yn wych. Diolch i bawb a aeth draw i gefnogi.



## Ysgol Garth Olwg (Parhad)

Yn ystod y dydd, cafodd y criw sesiwn ardderchog gydag Aneurin Karadog yn rownd derfynol y gystadleuaeth. Roedd hyn yn brofiad gwerthfawr i'r dysgwyr. Cyfle gwych i ddysgu o berson mor nodweddiadol a phrofiadol.



**Taith i Langrannog**
Aeth disgyblion blwyddyn 5 ar daith i Langrannog yn ddiweddar. Am ddiwrnodau o fwynhau! Cafodd y disgyblion gyfle i wneud amrywiaeth o weithgareddau gwahanol gan gynnwys y rhaffau uchel a'r wal ddringo. Er y cawodydd, cafon nhw amser i gerdded, bwyta hufen ia a mwynhau yn yr awyr iach.






**Ymweliad y Llywodraethwyr**
Ar yr 20fed Mehefin ymwelodd chwech aelod o'n Corff Llywodraethol â'r ysgol i fynd am Daith Ddysgu a siarad gyda disgyblion. Dangoswyd y llywodraethwyr o gwmpas yr ysgol gan bedwar o ddisgyblion Blwyddyn 6 - Hedd, Conor, Joseph ac Isaac. Ymwelon nhw â phob dosbarth a gwnaethant sylwadau ar frwdfrydedd y disgyblion am eu dysgu, eu hyder, eu hannibyniaeth a'u hymddygiad rhagorol. Diolch am ymweld â ni!

**Diwrnodau Pontio Blwyddyn 6**



Ar hyn o bryd mae ein disgyblion Blwyddyn 6 yn mwynhau diwrnodau pontio yn yr ysgolion uwchradd y byddant yn mynychu ym mis Medi. Bydd y disgyblion yn ymweld â Radur, Plasmawr, Y Pant, Cardinal Newman, Bryn Celynnog, yr Eglwys Newydd a St. Martin's. Gobeithiwn y bydd pawb yn mwynhau eu profiadau yn eu hysgolion newydd.

**Ava Gazzard o flwyddyn 10 yn derbyn ei chap rygbi cyntaf**
Braf oedd dathlu llwyddiant Ava Gazzard o dderbyn ei chap cyntaf. Daeth Ava a'i chap i'r ysgol i ddangos i eraill. Mae'r ysgol yn hynod o falch o'i llwyddiant ac yn edrych ymlaen at ddilyn ei gyrfa addawol. Pob hwyl iti Ava.





**Llwyddiant i Sara yn Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Sara am ddod yn ail yn yr Unawd Sioe Gerdd. Roedd hi'n wych gweld yr ysgol yn cael ei chynrychioli ar y llwyfan cenedlaethol. Am berfformiad! Arbennig Sara!



# Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

**Nofio**
Diolch yn fawr iawn i Rhys a Rhian o South Whales Swim School am ddod i siarad gyda blynyddoedd 2 i 6 am beryglon y dŵr a sut i gadw'n ddiogel.





**Llangrannog 2024**
Am benwythnos bythgofiadwy gafodd ein disgyblion a'n staff yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog eleni. O gerdded dros y mynydd i lawr i'r traeth, sgïo, gwibgartio, dringo'r rhaffau uchel a hongian o'r weiren zip i enwi rhai o'r gweithgareddau! Cyfle i fwynhau a datblygu sgiliau gyda'u ffrindiau - roedd y profiadau yn wych! Diolch Gwersyll yr Urdd!







**Rygbi 7 bob ochr**
Da iawn i'r tîm am ddiwrnod o chwarae penigamp yn nhwrnament 7 bob ochr Ysgolion Pontypridd, wrth gyrraedd rownd cyn-derfynnol y plât - gêm aeth lawr i'r eiliadau olaf!



**Coginio Gyda'n Gilydd**
Diolch yn fawr iawn i Jen Davis o 'Coginio Gyda'n Gilydd' am goginio prydau iachus yn ystod Wythnos Bwyta'n Iach. Dyma blant blwyddyn 4 yn paratoi wraps blasus!





**Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024**
Llongyfarchiadau enfawr i'n dysgyblion am eu perfformiadau penigamp wrth iddyn nhw gynrychioli Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd ym Maldwyn. Bu Elan Spanswick yn llwyddiannus wrth ddod yn drydydd yng nhystadleaeth Unigol Cerdd Dant. Da iawn ti Elan!







**Gwaith Adeiladu**
Mae hi'n amser gyffrous i ni yn Ysgol Castellau gan fod gwaith adeiladu estyniad y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn wedi cychwyn! Rydym yn cynnig llefydd Ionawr, Ebrill a Medi blwyddyn nesaf - cysylltwch gyda ni am fwy o wybodaeth. Fel rhan o'r buddsoddiad, bydd Cylch Meithrin Beddau'n cynnig meithrinfa ar y safle ar gyfer plant o 18 mis er mwyn cynyddu'r llefydd gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal.





## Menter Caerdydd

**Pwy sy'n edrych ymlaen at Tafwyl wrth i'r ŵyl ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed?**

Mae'r Wythnos Ffrinj yn prysur agosáu gyda digwyddiadau amrywiol i bobl o bob oed yn arwain at y penwythnos mawr ym Mharc Bute ar 13 a 14 Gorffennaf.

Mae nifer o weithgareddau rhad ac am ddim yn ystod y Ffrinj gan gynnwys Taith Tafwyl ym Mharc Cathays ar ddydd Sul, 7 Gorffennaf yng nghwmni Sara Huws fydd yn siarad am hanes menywod yn y brifddinas. Mae llefydd ar gael ar y daith gyntaf am 2.00 felly ewch i'r wefan i sicrhau eich lle.

Ymhlith y digwyddiadau eraill sy'n rhad ac am ddim, mae Picnic i'r plant lleiaf ar y dydd Llun a thaith gerdded yn Llandaf gyda Chymdeithas Carnhuanawc ar nos Fercher, 10 Gorffennaf.

Nos Iau yw noson Dragwyl yng Nghanolfan y Mileniwm gyda thocynnau ar gael am £15 o wefan y Ganolfan. Ar y nos Wener, bydd digon o ddathlu ym mharti pen-blwydd Tafwyl yn 18 oed, Tafwener! Am £18, cewch fwynhau noson o adloniant hwyliog yng nghwmni Cabarela, Connie Orff, Mel Owen a Carwyn Blaney.

Wrth edrych ymlaen at benwythnos yr ŵyl, mae nifer o ddatblygiadau cyffrous i'r arlwy eleni. Yn y babell goginio, dan ofal Llwyddo'n Lleol, bydd rhai o gogyddion amlycaf Cymru yn cynnal arddangosfeydd fydd yn tynnu dŵr o'r dannedd. Elfen newydd arall ar gyfer 2024 yw'r Gwerinle, fydd yn rhoi llwyfan i gerddoriaeth werin a setiau acwstig gyda TRAC Cymru a YES Cymru yn trefnu'r perfformiadau amrywiol.

Ar y brif lwyfan, Yws Gwynedd, Fleur dy Lys, Meinir Gwilym a Mellt fydd ymhlith y perfformwyr ar y dydd Sadwrn gyda Hyll, Pys Melyn a Rio 18 yn y Tafiliwn. Ar y dydd Sul, Eden, Gwilym, Kim Hon a HMS Morris fydd rhai o'r enwau mawr ar y brif lwyfan tra bod Al Lewis, Geraint Løvgreen, Y Gerddorfa Ukulele a Lily Beau ymysg y rhai fydd yn ein diddanu yn y Tafiliwn. Hyn oll, heb anghofio talentau mawr y Llwyfan Ysgolion, perfformiadau'r Yurt T a sesiynau 'Llais' fydd yn cynnwys Talwrn y Beirdd a Sgwrs Banel Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar y dydd Sadwrn a dathliad Pobol y Cwm yn 50 oed ar y dydd Sul.

Yn ogystal, bydd ardal Bwrlwm llawn hwyl i aelodau ifanc y teulu, ardal fwyd a diod a stondinau amrywiol yn gwerthu popeth o grefftau a chardiau i ddillad a llyfrau.

**I archebu tocynnau ar gyfer digwyddiadau'r Ffrinj, ewch i:** https://tafwyl.org/ffrinj-2024/




## Celf Annibyniaeth

Mae YES Cymru Penybont ar Ogwr yn cynnal cystadleuaeth ac arddangosfa "Celf Annibyniaeth" i ddathlu dydd Owain Glyndŵr, ac yn galw ar artistiaid Cymru gyfan ac ymhellach, anfon eu darnu celf sydd a chysylltiad ag Annibyniaeth, i'w cynnwys yn y gystadleuaeth ac i'w harddangos mewn oriel gelf yng Nghastell Nedd. Dyddiad cau am ddelweddau a ffurflenni cofrestru - 16 Medi - Dydd Owain Glyndŵr

Ebost: Art.Of.Independence@btinternet.com

**Gweithgareddau'r Gwyliau**

Os ydych chi'n chwilio am weithgareddau i ddiddanu'r plant a'r wyrion yn ystod gwyliau hir yr haf, cofiwch am ein sesiynau chwarae rhad ac am ddim, Bwrlwm! Byddwn yn cynnal sesiynau mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas y brifddinas a Bro Morgannwg am gyfnod penodol.

Bydd ein Cynllun Gofal yn rhedeg yn ysgolion Treganna a Melin Gruffydd o ddydd Mawrth, 23 Gorffennaf gan gynnig gofal plant o 08:30 tan 17:30 am £32 y dydd. Bydd Clwb Menter Caerdydd hefyd yn cynnig gofal o 08:30 tan 16:30 yn Ysgol y Berllan Deg am dair wythnos gynta'r gwyliau a'r gost yw £28 y dydd.

Cewch hyd i fwy o fanylion am ein gweithgareddau gwyliau ar y wefan neu ar y poster yng nghefn y cylchgrawn.

https://mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc/gweithgareddau-gwyliau

https://mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc/gofal-plant

Wedi Tafwyl, bydd y rhan fwyaf o'n sesiynau a chyrsiau rheolaidd i blant ac oedolion yn cymryd hoe tan fis Medi ond bydd cyfarfodydd 'Cerdded a Chlonc' ymhlith y rhai fydd yn parhau. Byddwn ni'n cwrdd ym Mharc Bute ar brynhawn Llun, 22 Gorffennaf i gerdded rhwng 14:00 a 15:30 ac ar nos Fawrth, 20 Awst, awn am dro i Barc Gwledig Cosmeston, Penarth am 18:00.

Bydd criw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg hefyd yn cynorthwyo ar stondin Mentrau Iaith Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd. Felly, os ydych chi'n ymweld â'r Maes, dewch draw i ddweud, 'Helô!'

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru**

**Facebook: @m.caerdydd Instagram: @mentercaerdydd**

**E-bost: post@mentercaerdydd.cymru Ffôn: 029 2068 9888**



# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**
**Mis Gorffennaf:**
7fed Gorffennaf - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn
14eg Gorffennaf - Oedfa dan ofal Siân Meinir
21ain Gorffennaf – Oedfa ar y cyd yn y Tabernacl, Efail Isaf (am 11:00 a.m.)
28ain Gorffennaf – Oedfa ar y cyd ym Methlehem, Gwaelod-y-garth
**Mis Awst:**
4ydd Awst – Oedfa'r Eisteddfod Genedlaethol
11eg Awst - Oedfa ar y cyd ym Methlehem, Gwaelod-y-garth
18fed Awst - Oedfa ar y cyd yn y Tabernacl, Efail Isaf (am 11:00 a.m.)
25ain Awst - Oedfa ar y cyd ym Methlehem, Gwaelod-y-garth
**Mis Medi:**
1af Medi **-** Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn

---oooOOOooo---

Mi fydd canlyniadau Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Gyfunol yn wybyddus ar y pumed o Orffennaf. Bydd yr ymgyrchu brwd wedi dod i ben a bydd yna Lywodraeth newydd wrthi'n prysur roi trefn ar yr holl addewidion a daenwyd fel conffeti o'n cwmpas yn ystod y chwe wythnos flaenorol.

Bydd pwyso a mesur yn y wasg a'r cyfryngau am yr hyn a ddigwyddodd i'r gwahanol bleidiau, a bydd nifer fawr o unigolion yn troi eu golygon i gyfeiriadau gwahanol oherwydd nad oes 'na sedd iddynt yn San Steffan mwyach. Er mae'n siŵr y bydd ambell addewid o ermin o amgylch y gwddf yn lleddfu ac esmwytho peth ar yr archoll!

A na, 'does gen i ddim gwybodaeth rhagblaen a fyddai'n eich galluogi i roi rhyw sofran neu ddwy ar ba enwau allai fod yn y ras arbennig honno!

Wn i ddim yn lle y byddech yn gosod yr ymgyrch etholiadol hon yng nghyd-destun etholiadau'r gorffennol – hwyrach yn wir nad oes gennych lawer o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth o unrhyw fath, yma yng Nghymru, y Deyrnas Gyfunol, Ewrop na thu hwnt?

Ond yn ddi-os, fedar yr un ohonom osgoi cael ein lliwio yn ddyddiol gan yr hyn sydd yn y wasg, ar ein sgriniau teledu, ac ar ein ffôn lôn, o doriad gwawr hyd fachlud haul, a thu hwnt i'r *anoracs* yn eich plith.

Mae yna gyfres o ddadleuon rhwng yr "Arweinyddion" gwleidyddol wedi eu darlledu, mae cynrychiolwyr y pleidiau yn cael eu holi yn barhaus, gyda'r gohebwyr yn ceisio eu gorau i gael sylw neu ddau o enau'r panelwyr fydd yn eu "croeshoelio" hyd Ddydd y Farn, ac a allai yn ei dro roi diwedd disymwth ar eu gyrfaoedd gwleidyddol.

Mae ambell un yn credu fod yngan "ymddiheuriad" yn ddigon mewn achos o gam-ddweud neu gam-wneud mewn swydd gyhoeddus, gan obeithio y bydd y cyfan yn diflannu i lwch y cof pan fydd rhyw stori neu ddigwyddiad arall yn cael gofod ar dudalennau blaen ein papurau newyddion.

Da deall, er nad yw'n ddilychwin, bod Senedd Cymru, 'nol ym mis Mawrth 2021, wedi ychwanegu at "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" (a elwir yn 'egwyddorion Nolan').

Y saith, os cofiwch, oedd:-

Anhunanoldeb; Uniondeb; Gwrthrychedd; Atebolrwydd; Bod yn Agored; Gonestrwydd; Arweinyddiaeth

Bellach cynhwysir "Parch" hefyd- a'i ddiffinio fel a ganlyn –

"*Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n lleihau cyfle cyfartal, rhaid iddynt barchu urddas pobl eraill a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu mewn modd nas dymunir.*"

[Gweler cr-ld14238-w.pdf (senedd.cymru) am "Cod Ymddygiad ar Safonau Ymddygiad Aelodau o'r Senedd".]

Honnir bod un a fu'n byw yn ein plith ym Mhentyrch ychydig flynyddoedd yn ôl (bu'n cynrychioli ward Pentyrch ar Gyngor Caerdydd, ac yn ddiweddarach fel Aelod Seneddol dros etholaeth Gogledd Caerdydd) wedi methu a choleddu'r hanfodion uchod - tybed a fydd etholwyr sedd newydd Maldwyn a Glyndŵr wedi ei gloriannu neu ei gondemnio o'r herwydd ar Orffennaf y 4ydd?

Rhoi croes ar ddarn o bapur a'i osod yn y Blwch Pleidleisio ydi'n dull ni o ddewis cynrychiolydd - yn y Beibl "*bwrw coelbren*" oedd y drefn. Yn ôl y Parchedig Huw Jones, yn ei gyfrol "*Y Gair yn ei bryd - casgliad o ymadroddion o'r Beibl*" - "Dyma ddull yr Iddewon …. O ddewis swyddogion, o rannu tiroedd ac o wneud unrhyw benderfyniad o bwys….credai'r Iddewon fod y canlyniad yn amlygiad o ewyllys Duw."

Yn y Testament Newydd [fersiwn y Beibl Cymraeg Newydd], y ddwy enghraifft fwyaf adnabyddus o "fwrw coelbren" oedd y disgrifiad o'r milwyr Rhufeinig yn rhannu dillad yr Iesu adeg y croeshoelio (Marc 15:24) ["**gamblo**" ydi'r term a ddewisir yn Beibl.net], â'r dewis i lenwi'r bwlch a adawodd Judas yn rhengoedd y disgyblion (Actau 1:26].

Tydi ddim yn synnu neb bod y defnydd o'r gair "*maddeuant*" yn ymddangos yn aml yn y Beibl, ond fe synnais mai dim ond un enghraifft o "*ymddiheuro*" sydd i'w gael, a hwnnw yn Actau 16:39 [hanes Paul a Silas yn y carchar yn Philipi], fersiwn BCN a Beibl .net, ond nid ym Meibl William Morgan!

Ac yn ôl at yr Etholiad i gloi, mae'r Beibl yn cyfeirio at yr "etholedig" rai - yn yr Hen Destament clywir am "*disgynyddion Jacob, ei etholedig*"; ond 'rydym ni'n siŵr o fod yn fwy cyfarwydd â rhai o'r cyfeiriadau yn y Testament Newydd - cyfeirir at "*angylion etholedig*", "*conglfaen etholedig*" a "*hil etholedig*", a'r mwyaf yn ddi-os - "*Hwn yw fy Mab, yr Etholedig, gwrandewch arno*".

"*Yr wyf fi, ac nid myfi yn unig, ond pawb sydd wedi dod i wybod y gwirionedd, yn eich caru yn y* ***gwirionedd***" [2 Ioan 1:1]

Chwi, etholedig rai, ydych chi'n ein clywed ni tua San Steffan 'na?

# Clwb y Bont

Mae'n gyffrous wrth gyfri'r dyddiau a'r oriau hyd nes daw'r Eisteddfod Genedlaethol i Barc Ynysangharad. O'r diwedd mi allwn foddi'r holl negyddiaeth a'r amheuon a glywyd o ambell gyfeiriad, a bloeddio'n hyderus y bydd y gorau o'n diwylliant a'n hiaith gynhenid yn cael lle blaenllaw a haeddiannol mewn un wythnos orfoleddus. A dyna'n union yw ein gweledigaeth ninnau yng Nghlwb y Bont - estyn croeso mawr i Eisteddfodwyr o bob cwr o Gymru i fwynhau adloniant cenedlaethol a lleol o'r safon uchaf, yn ogystal â chynnig cyfle i gymdeithasu bob dydd, bob nos.

Trefnwyd rhaglen lawn o ddigwyddiadau fin nos ac i gloi'r wythnos noson Aduniad Ysgol Rhydfelen yng nghwmni Delwyn Siôn, Cleif Harpwood, Catsgam a Geraint Cynan. Os oes gennych hen luniau ysgol o'r cyfnod (1962 - 2006) yna cofiwch eu rhannu ac mi wnawn ni eu dangos ar ein sgriniau yn ystod y noson.

Mae'r tocynnau ar-lein ar werth nawr - www.ticketsource.co.uk/clwb-y-bont


Dros yr wythnosau nesa, diolch i gymorth Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth Llywodraeth Cymru, bydd arwydd mawr newydd parhaol yn cael ei osod ar ben y lôn i groesawu pawb i'r safle. Gwaith comisiwn ydy hwn gan y tîm gynhyrchodd y bêl rygbi eiconig ar furiau Castell Caerdydd adeg Cwpan Rygbi'r Byd yn 2015. Fe'i cynlluniwyd gan yr artist lleol, Becky Davies a'r tîm sy'n creu a gosod yw Jess Phelps a Julian Payne.

Fel Clwb, rydym yn rhannu brwdfrydedd a gweledigaeth Jess, ac yn gobeithio bydd yr arwydd yn destun trafod a balchder i bobl leol wrth eu hannog i ddod lawr y lôn a dysgu mwy am yr hyn y gall Clwb y Bont ei gynnig - i siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a'r amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymdeithasol eraill a gynhelir.

Apeliwn yn daer am wirfoddolwyr i'n helpu dros yr Eisteddfod. Yn y cyfamser cofiwch gadw golwg ar ein posteri, cyfryngau cymdeithasol a safle Ticketsource ar gyfer holl fanylion ein digwyddiadau wythnosol.

Aled Wyn Phillips
swyddogclwbybont@gmail.com

# Canu ar Lannau Cynon




Cyhoeddir y gyfrol hon o gerddi am ddigwyddiadau a chymeriadau sy'n gysylltiedig a Chwm Cynon gan David Leslie Davies a fu'n athro Hanes a Chymraeg ac yn weithgar gyda Chymdeithas Hanes Cwm Cynon. Gwerthir y gyfrol am £6.95 a thrwy haelioni'r awdur, bydd pob ceiniog yn mynd at Gronfa Cwm Cynon ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Mae'r gyfrol ar gael gan yr awdur *dldaman5@gmail.com* neu drwy *clochdar@gmail.com*

# CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*
*colin.williams@talktalk.net*

**Priodas Berl**

Llongyfarchiadau mawr, Phil ac Ann Angell. Priodwyd y ddau ar yr wythfed ar hugain o Fai, 1994 yng nghapel Ffaldybrenin, Shir Gâr. Cynhaliwyd y wledd briodas yng ngwesty'r Falcondale, Llambed. Felly i ddathlu deng mlynedd ar hugain o briodas hapus aeth y ddau i Baris ac yna i Bortiwgal. Ymlaen at y deugain!



**Gwellhad buan . . .**

. . . i Rhidian Thomas, Fferm Pantygored. Chwith iawn deall iddo dorri ei goes yn ddiweddar. Brysia wella, Rhidian - a prysured y dydd y byddi nôl ar dy deithiau lleol.




## Merched y Wawr Cangen y Garth

**Edward Morgan, Rheolwr ESG, Cwmni Bwydydd Castell Howell**

A ninnau mor gyfarwydd â gweld faniau Cwmni Bwydydd Castell Howell ar ein strydoedd yn rheolaidd braf oedd cael tipyn o hanes y cwmni hollol Gymreig yma o'i gychwyn hyd heddiw! Diolch arbennig i Ed am ddod atom yn llawn ffeithiau difyr a brwdfrydedd!



Cychwynnwyd y Cwmni gan Brian Jones, neu Brian Castell Howell fel yr adnabyddir ef, nôl ym 1988. Cartre Brian oedd y fferm Castell Howell yn Shir Gâr. Gwerthu cywion ieir ar gyfer y farchnad 'chicken in the basket' oedd y fenter gynharaf. Cofio'r dyddiau hynny? Erbyn heddiw mae'r pencadlys yn ymyl Cross Hands, lle y gwelwch estyniad ar estyniad ar estyniad! Mae'r cwmni wedi tyfu yn aruthrol dros 36 mlynedd ac yn cyflenwi bwytai a thafarndai, ysgolion ac ysbytai ledled Cymru. Da oedd clywed gan Ed bod y rhan fwyaf o'r cynnyrch yn gynnyrch Cymreig. Maent yn cefnogi ffermwyr Cymru, Banciau Bwyd Cymru a phrosiectau addysgol lleol. Yn anhygoel clywsom bod gan Gwmni Castell Howell dros 5,000 o gwsmeriaid, 700 o gydweithwyr, 180 o gerbydau, 6 depo, 5 safle gweithgynhyrchu bwyd a thros 15,000 o gynnyrch a'r cyfan yn deillio o un teulu! Llongyfarchiadau mawr Castell Howell ar eich llwyddiant - a diolch o galon Ed am ddod i rannu'r stori gyda ni! Gofynnodd Ed i ni anfon ei gydnabyddiaeth fechan ef i Fanc Bwyd lleol - a dyna a wnawn.

Bydd ein cyfarfod ola am y tymor - sef ciniawa gyda **Dudley**, yn y **Meisgyn Arms** p'nawn **Mercher, Gorffennaf 17eg** am **12.15.** Bydd angen enwau, plîs!

## Ysgol Dolau

**Mabolgampau**

Cawsom mabolgampau hyfryd iawn yn yr heulwen braf. Bu'r Cyfnod Sylfaen yn cystadlu ar y dydd Llun a'r adran Iau yn cystadlu ar y dydd Mawrth. Ymdrech arbennig gan bawb, plant, rhieni ac hyd yn oed Mr Evans!

**Sesiwn Frozen 2**

Bu Blwyddyn 1 / Year 1 yn cael sesiwn UEFA Disney Playmakers trwy'r thema'r stori Frozen 2.



**Trosglwyddo**

Cafodd Blwyddyn 6 ddiwrnod prysur yn Ysgol Llanhari, y plant llawn cyffro ac yn edrych ymlaen at fis Medi.




**Prosiect Menter Dolau 2024**



Llongyfarchiadau enfawr i Enillwyr Prosiect Menter 2024: Dosbarth 11 (Miss Thomas) a enillodd y wobr o £100 a tharian a gyflwynwyd gan Jessica, Nathan a Maddie o NatWest. Sefydlodd Dosbarth 11 eu busnes gyda chymorth NatWest ac Andrew Bowden o 'KTV Working Drone' a roddodd gyngor gwych yn ogystal â'r buddsoddiad gwreiddiol o £25 yn eu menter fusnes "Cymru Crumbs". Roedd cyfanswm yr elw a gynhyrchwyd gan y prosiect dros £5,000 fydd yn cael ei ddefnyddio i brynu adnoddau darllen i'r ysgol.

*Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024*
*Adran Glasurol*
*Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru*

**'Y CLASURON YM MRO'R EISTEDDFOD'**

*Detholiad personol –*
*o gyfnod y Rhufeinwyr hyd heddiw*

**Cyflwynydd: Iolo Huw Jones, Aberpennar**

**Mawrth 6ed Awst, 4.00 p.m.**
**Pabell y Cymdeithasau 1**

Croeso cynnes i bawb


Canolfan Garth Olwg
DIGWYDDIADAU PLANT
13.8.24
CREFFT AR LAN Y MÔR
10-11:30yb
(Addas i blant ag anghenion dysgu ychwanegol) / (ALN Friendly)
CREFFT AR LAN Y MÔR ALN
1-2:30yp
13.8.24
14.8.24
SINEMA GARTH OLWG
SONIC THE HEDGEHOG
12:30yp
(Addas i blant ag anghenion dysgu ychwanegol) / (ALN Friendly)
CREFFT ANIFEILIAID ALN
10-11:30yb
15.8.24
15.8.24
CREFFT ANIFEILIAID
1-2:30yp
I gadw lle, ewch i gartholwg.org
RHONDDA CYNON TAF


EISTEDDFOD GENEDLAETHOL RHONDDA CYNON TAF 2024
CYMANFA GANU
DYDD SUL 4 AWST
20:00
ARWEINYDD
Wil Morus Jones
ORGANNYDD
Jeffrey Howard
RHANNAU ARWEINIOL
Y Parch Dr Rosa Hunt
EITEM GAN
Côr y Gymanfa: Teyrnasoedd y Ddaear gan J Ambrose Lloyd
ENSEMBLE LLEISIOL
C.Ô.R dan ofal Osian Rowlands
LLYWYDD Y LLYS
A CHADEIRYDD Y BWRDD RHEOLI
Ashok Ahir
ARWEINYDD CYMRU A'R BYD
Susan Gabriel-Dennis
EISTEDDFOD Rhondda Cynon Taf
3-10 Awst 2024
eisteddfod.cymru
0845 4090 900


MENTER CAERDYDD
GOFAL PLANT
Ysgol Treganna, CF11 8DG
23/07/24 - 23/08/24
Dydd Llun-Gwener
08:30-17:30
Ysgol Melin Gruffydd, CF14 1AP
23/07/24 - 22/08/24
Dydd Llun - Dydd Iau
08:30-17:30
GWEITHGAREDDAU
Celf a Chrefft
Castell Neidio
Dawnsio
Chwaraeon
a mwy...
£32.00
DIWRNOD LLAWN
www.mentercaerdydd.cymru
Taliadau: Cerdyn / Talebau Gofal
CYNLLUN GOFAL I BLANT DOSBARTH DERBYN - BLWYDDYN 6 YN YSTOD GWYLIAU'R YSGOL
CLWB NEWYDD
Lleoliad Ychwanegol
CLWB MENTER CAERDYDD
£28.00
DIWRNOD LLAWN
www.mentercaerdydd.cymru
Taliadau: Cerdyn yn unig
Ysgol Y Berllan Deg
CF23 9LD
23/07/24 - 08/08/24
Dydd Llun - Iau
08:30-16:30
Tair wythnos
Rhif Elusen: 1098606


AM DDIM! FREE!
CYNLLUN CHWARAE AGORED
BWRLWM HAF!
OPEN ACCESS PLAY SCHEME
DOSBARTH DERBYN - BLWYDDYN 6
RECEPTION - YEAR 6
DIM ANGEN COFRESTRU/ NO NEED TO REGISTER
Ysgol Glan Morfa
CF24 5ER
10:30 - 12:25
Ysgol Hamadryad
CF10 5UY
13:30 - 15:25
Ysgol Coed y Gof
CF5 3SG
10:30 - 12:25
Ysgol Nant Caerau
CF5 5QZ
13:30 - 15:25
Ysgol Y Berllan Deg
CF23 9LD
10:30 - 12:25
Ysgol Mynydd Bychan
CF14 3BR
13:30 - 15:25
W1: 23-25/07/24
W2: 29/07 - 01/08/24
W3: 05-08/08/24
AM DDIM! FREE!
Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project